PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

85c | Rhif 481 | Medi 2025



**Cyfrinachau y Llyfrgell** t.14

**Gŵyl flodau Capel Bangor** t.12-13



**Cerddi bardd y dref** t.17





Aelodau Clwb Sul Horeb, Penrhyn-coch, wedi mwynhau eu trip i Parc Fferm Ffantasi.



Awyren wedi dod o Shobdon, Swydd Henffordd laniodd yn un o'r caeau ger Tregerddan bnawn Sul Awst 24 - Piper Cherokee 140, PA28. Bu yno tan y dydd Iau. Llun: Vaughan Griffiths

## Hwyl yr Haf





Torfeydd yn The Big Tribute. Lluniau: Tegwen Morris.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Lynwen Evans**, Llawr y Glyn, Lôn Glanfred, LlandreSY24 5BY
☎ 01970 822322
Ebost: levans100@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

CYMRAEG Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn Hydref: Dyddiad cau** Hydref 3; **Dyddiad cyhoeddi** Hydref 15

**MEDI**

**17** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Delwyn Sion – yn Horeb am 7.30

**19** Nos Wener Straeon y môr: atgofion o stormydd y Borth. Noson o adrodd straeon ac arddangosfa gymunedol am fywyd ger y lli a'r stormydd a'i lluniodd yn Seren y Môr, Y Borth SY24 5JF Arddangosffa ar agor o 18.00 adrodd straeon o 19.00-21.00. (Prifysgol Reading)

**21** Dydd Sul Taith tractorau Penrhyn-coch. Lluniaeth o 9.00. Gadael am 10.30
Am fwy o wybodaeth cysyllter â Lynwen Jenkins 07711 968 497 / 01970 828330

**26** Nos Wener Darlith Waldo – Jill Evans – gweler hysbys t.23

**HYDREF**

**7** Nos Fawrth Dynolwaith gan Leo Drayton yn Arad Goch. Cyd-gynhyrchiad gan Frân Wen a Theatr y Sherman am 7.30

**9** Nos Iau Theatr Cymru mewn cydweithrediad â Shakespeare's Globe yn cyflwyno 'Romeo s Juliet' yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30.

**15** Nos Fercher Iestyn Tyne yn trafod ei gyfrol Y cyfan a fu rhyngom ni – ar lwybrau 'Atgof' Prosser Rhys. Cymdeithas y Penrhyn yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.30.

**17** Nos Wener Pawb a'i Farn gyda Dewi Llwyd Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 (Cyfle i bawb ymaelodi o 7.00 ymlaen)

**24** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau am hanner tymor

**25** Dydd Sadwrn. Gŵyl Gwrw PATRASA yn Neuadd y Penrhyn am 7.00 Adloniant gan Paperwing. Mynediad £5 Gweler tudalen PATRASA ar Facebook

## Cyfeillion Y Tincer

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mehefin 2025

**£25** (Rhif 178) Aneurin Rowlands, Cwm Main, Capel Dewi
**£15** (Rhif 74) Iori/Ceri Jones, Llwyn Awel, 7 Cae'r Wylan, Llanbadarn
**£10** (Rhif 278) J Evans, Deilyn, Cefn-llwyd

Cofiwch os ydych yn aelod o'r Cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch wybod i'r Trefnydd. Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan, 01970 880228 bethanbebb162@gmail.com

Bu'n rhaid newid cyfrif y Cyfeillion, oherwydd amgylchiadau. Byddem yn ddiolchgar pe gallai y Cyfeillion lenwi y ffurflen newydd ddaw iddynt. Y tal yw £5 am un rhif, £10 am ddau.

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Cyngor Tirymynach £350**
**Cylch Cinio Aberystwyth £100**

## Ysgrifennydd newydd

Yng nghyfarfod blynyddol y Tincer nos Lun 15 Medi etholwyd Lynwen Evans, Llandre, yn Ysgrifennydd. Dymuniad Iona Davies oedd ymddeol o'r swydd gan ei bod bellach yn byw yn y dref. Diolch yn fawr i Iona am ei gwaith ers 2019 a dymuniadau gorau i Lynwen yn y swydd.



# 50 mlynedd yn ôl



**CANTRE'R GWAELOD**
Ffurfiwyd Côr Cantre'r Gwaelod ym 1974 pan symudodd Bethan Bryn i ardal Aberystwyth o Fôn lle hyfforddai Gôr llwyddiannus Rhianedd Môn.

Bu Cantre'r Gwaelod yn cystadlu mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol a'r Ŵyl Gerdd Dant, a chafwyd pedair taith dramor – dwy i Lydaw a dwy i Iwerddon rhwng hynny a 1981 pan benderfynwyd cymryd saib ar ôl Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r cyffiniau ym Machynlleth.

Fe ail-ffurfiwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion, Aberystwyth 1992 ac ailgydiwyd yn y cystadlu a'r cynnal cyngherddau gan ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y parti alawon gwerin yn y Bala yn Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r cyffiniau, 1997.

Ddiwedd Ebrill 1999 rhoddodd Bethan Bryn y gorau i'r Côr a chymerwyd at yr awenau gan Eleri Roberts. Enillwyd y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y parti alawon gwerin yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r cyffiniau, 2005, 3ydd yn y parti alawon gwerin yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r cyffiniau 2015 ac ail yn y gystadleuaeth parti alawon gwerin yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Llandysul yn 2017. Ni ddaeth y Côr nôl at ei gilydd yn dilyn y pandemig.

Yn y llun gwelir aelodau gwreiddiol y Côr fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, Cricieth, 1975.

**PARTI NANTAFALLEN**
Ffurfiwyd y parti pan symudodd Alun Jones i fyw yn yr ardal a bu y Parti yn cystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Aberhonddu ym 1975. Parti o 15 o wragedd ifanc yn cyfarfod yng nghartref Alun – Gwyddfor, Ffordd Clarach a chystadlu oedd y sbardun. Cawsant 8 gwobr gyntaf, tair ail wobr ac un trydydd yn y Genedlaethol. Tynnwyd y llun yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth ym 1981. Gweler erthygl yn *y Tincer* 430 (Mehefin 2020) t.18

**Canlyniadau Parti Nantafallen**
**Gŵyl Gerdd Dant**
1975 – Abertawe – Cyntaf
1976 – Llansannan – Cyntaf
1978 – Corwen – Cyntaf
1979 – Caerfyrddin – Cyntaf
1980 – Dinbych – Trydydd
1981 – Caerdydd – Cyntaf
1982 – Llandudno – Cyntaf
1983 – Aberystwyth – Cyntaf
1986 – Gorseinon – Ail
1988 – Pwllheli – Ail

**Y Genedlaethol**
1978 Caerdydd Ail
1981 Machynlleth Ail
1982 Abertawe Ail
1992 Aberystwyth Cyntaf

Roedd y ddau lun yma mewn Arddangosfa ym mhabell Cymdeithas Cerdd Dant Cymru i hysbysbu fod yr Ŵyl yn dychwelyd i Aberystwyth yn 2025. Gobeithir dangos yr arddangosfa yn lleol cyn neu adeg yr Ŵyl.



Teis Cantre'r Gwaelod.
Llun: Elisabeth Wyn.



# Penrhyn-coch

**Oedfaon Horeb**

*Medi*

**21** 10.00 Densil Morgan yn Seion
**28** 10.30 Watcyn James Oedfa Ddiolchgarwch

*Hydref*

**5** 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun
**12** 10.30 Peter Thomas
**19** 10.00 Cyrddau mawr Seion / Bethel – Iwan Llewelyn Jones yn Seion
**26** 2.30 Wyn Morris

**CLWB SUL HOREB 10.30**

*Medi*

**14** Clwb Sul
**28** Gwasanaeth Diolchgarwch

*Hydref*

**19** Clwb Sul

**Eglwys St Ioan**

Cynhelir gwasanaeth teuluol ddydd Sul cyntaf bob mis yn yr Eglwys, am 4 o'r golch y prynhawn. Mi fydd y gwasanaeth byr a chartrefol yn cynnwys storiâu, cartwnau a chaneuon ysgafn, croeso cynnes i bawb.

Cyfarfu grŵp gweddi nos Iau cyntaf y mis am 6 o'r gloch yn yr eglwys.

Mi fydd bore coffi, te a chacen y cynhaeaf yn Neuadd yr Eglwys ar fore Sadwrn y 4ydd Hydref rhwng 10.00-11.30.

Dathlwn ein Cwrdd Diolchgarwch ar fore Sul 12fed Hydref am 11 o'r gloch y bore.

Cynhelir noson Bingo ar thema'r cynhaeaf, nos Wener 17eg Hydref am 7 o'r gloch, hwyl i'r teulu oll.



**Gwelwyd Iestyn Roberts yn cael llwyddiannau mawr wrth chwarae criced gydol yr haf gyda chwarae aeddfed. Gwelir ef yma gyda'i bartner Steff Roberts**



**Gwaith yn mynd rhagddo ar dŵr Eglwys St Ioan.**

**Diolch**

Hoffai Mair Evans , Glan Ceulan, ddiolch am y cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau gafodd ar achlysur dathlu pen blwydd arbennig dechrau Mehefin. Gwerthfawrogir y cyfan.

**Angen gwirfoddolwyr yn yr Ysgol**

Er mwyn cynnal gweithgareddau allgyrsiol gwych fel Clwb yr Urdd, mae Ysgol Penrhyn-coch yn dibynnu ar gefnogaeth anhygoel gwirfoddolwyr — ac maent yn hynod ddiolchgar i'r rhai sy'n helpu eisoes! Maent yn chwilio am fwy o bobl wych i ymuno â'u tîm gwirfoddol. A allai hynny fod yn chi neu rywun rydych yn ei adnabod?

Ydych chi'n greadigol gyda chelf a chrefft, gwnïo neu goginio?

Oes gennych chi gefndir mewn rygbi, hoci, criced neu bêl-droed?

Yn mwynhau darllen gyda phlant neu'n siarad iaith arall?

Hoffech chi helpu gyda'u bws cerdded?

Boed yn rhiant, mam-gu neu dad-cu, rhywun wedi ymddeol, neu berson ifanc sy'n chwilio am brofiad gwaith — byddent wrth eu bodd yn clywed gennych! Cysylltwch ar e-bost prif@Penrhyn-coch.ceredigion.sch.uk

**Dysgu Arweinydd**

Pan gyhoeddwyd mai Zack Polanski yw arweinydd newydd Plaid Werdd Cymru a Lloegr sylweddolodd yr Athro Jamie Medhurst iddo ei ddysgu tra oedd ar ei flwyddyn gyntaf yn Aberystwyth yn dilyn modiwl 'Cyflwyniad i Deledu' yn 2003/4.

**Rheolwyr newydd i'r Clwb Pêl-droed**

Pob dymuniad da i Carwyn a Sara Jenkins ar ail agor Clwb Pel-droed Penrhyn-coch o dan reolaeth newydd. Mae ganddynt nifer o gynlluniau cyffrous ar y gweill gan gynnwys ail gyflwyno cinio dydd Sul a phrydau bwyd gyda'r nos! Cadwch lygad allan am y newyddion diweddaraf a chefnogwch y ddau ar y fenter newydd hon! Mae croeso cynnes i bawb!

**Cydymdeimlad**

Estynnwn gydymdeimlad gyda Eifion ac Alwen Roberts a'r teulu ar farwolaeth tad Alwen.

**Pen blwyddi arbennig**

Dymuniadau gorau i Margaret Lile, Glan Ceulan ac Eirian Morgan, Maes Seilo ddathlodd benblwyddi arbennig yn ystod yr haf.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Ceri Haf Evans, Garn Wen ar golli ei nain yn Y Foel yn ystod yr haf.

â Elenid a Geoff Thomas, Nant Seilo ar farwolaeth brawd yng nghyfraith – John Bowen ar Orffennaf 30 yn Llundain.

Â Gavin, Debbie a Lynda a'r teulu ar golli eu mam – Jane Brenda (Jinny) Hughes-Evans, Fredora ar 8 Gorffennaf.

Â Robert Evans a'r teulu, Pont Seilo ar farwolaeth ei fam Margaret Evans ar 19 Mehefin. Bu'n aelod ffyddlon o'r Eglwys, yn athrawes ysgol Sul yn Sant Ioan am nifer o flynyddoedd, yn ogystal a bod yn athrawes gyntaf Cylch Meithrin Trefeurig. Cynhaliwyd yr angladd ar 28 Gorffennaf.

**I'r Coleg**

Dymuniadau gorau i Daisy Hughes-Evans ar ci chwrs yng Ngholeg Ceredigion.




## Sioe Penrhyn-coch

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill cystadleuaeth ffotograff y Tincer yn y Sioe. Y beirniad oedd Kat Leett.

**Cydradd 1af Sian Fflur Jenkins a Wendy Reynolds**
**2 Seren Jenkins**
**3 Eirian Reynolds**

1



1




2



3



**Graddio**
Llongyfarchiadau i Elisa Martin sydd wedi graddio gyda gradd dosbarth cyntaf ar gynhyrchu ffilm ym Mhrifysgol Staffordshire ac i Sion James ar raddio dosbarth cyntaf mewn hanes ym Mhrifysgol Birmingham.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i George Martin a Tia Georgia ar eu dyweddïad ganol Awst.

**Genedigaeth**
Ganol Awst ganwyd Ellis, mab i Alex a Sara Vearey-Roberts – brawd bach i Aidan a.ŵyr arall i Raymonda a Pete Roberts, Ger-y-cwm. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

**Newid Aelwyd**
Ffarweliwyd yn ystod yr haf â Wendy a Colin Roberts, Ger-y-llan sydd wedi symud i ardal Caerdydd. Croeso i Gareth ac Eleri Hughes o Ddôl-y-bont. I Ger-y-llan.

**Ffordd ar gau**
Mae'r ffordd C ger Penrhyn-coch i'w chau tan y flwyddyn newydd tra bydd gwaith yn ailddechrau ar y llwybr beics. Mae y C1010 sydd yn arwain o groesffordd Gogerddan ger IBERS i'r A487 cyn Comins-coch ar gau o 15 Medi am 16 wythnos, hyd 5 Ionawr 2026.

**Pen blwydd**
Pen blwydd hapus hwyr i'r efeilliaid Anni May a Tomos James oedd yn ddeunaw ar Fedi 4ydd.

**Prentisiaeth**
Dymuniadau gorau i Mari Gibson sydd wedi dechrau yng Ngwersyll Llangrannog fel Prentis Gweithgareddau Awyr Agored yr Urdd.

**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2026**
Mae paratoadau ar gyfer Eisteddfod 2026 gynhelir ar Ebrill 17-18 mewn llaw. Y beirniaid ar y nos Wener fydd Celt John a Caryl Haf ac ar y Sadwrn Meinir Richards, Llanddarog a Iola Wyn, Caerfyrddin. Celt yw Trefnydd yr Urdd Ceredigion ar hyn o bryd ac mae Caryl yn weithgar gyda mudiad y Ffermwyr Ifanc. Mae Meinir Richrds yn gyn bennaeth cerdd Ysgol Bro Myrddin ac yn arwain Côr Llangadog a Iola Wyn yn gyfarwydd fel merch leol sydd yn gweithio bellach efo Adran Newyddion BBC. Eurig Salisbury fydd yn beirniadu y gwaith cartref.

**Geni wyres**
Llongyfarchiadau i Jane a Daniel Thorogood ar eni wyres fach – ganwyd merch – Ottilie Merryn ar 6 Medi i Ollie a Hanah yng Nghaerwysg (Exeter). Y bumed wyr/wyres iddynt!



**Golff**
Llongyfarchiadau i Rhys Dobson am ennill Cwpan Clo Moduron Lewis Clwb Golff Parc Penrhos ddechreuodd yn ystod haf 2020. Chwaraeir y Cwpan Clo dros chwe rownd medal Cynghrair Nos Fawrth gyda y bedair sgôr medal gorau yn cyfrif. Cyfanswm Rhys oedd -2 nett.

# ... rhagor o Penrhyn-coch



Roeddem yn falch o weld Daniel Huws, Penrhyn-coch a'i chwaer Catherine Nagodhima, Tokyo y penwythnos ddechrau Awst i ddathlu eu rhodd garedig i gasgliad celf Oriel Môn – dau baentiad clytwaith gan eu mam Edrica Huws.



Ar Fehefin 13 daeth Jenny Jenkins i ymweld â Grŵp Crefft a Clonc yn Neuadd y Penrhyn, i gasglu gwaith crefft i fynd allan i Wcráin.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
**Cynghrair**
*Gorffennaf*
26 Yr Wyddgrug Alexandra 2 Penrhyn-coch 2

*Awst*
8 Penrhyn-coch 1 Y Drenewydd 2
16 Penrhyn-coch 0 Airbus UK Brychtyn 1
20 Rhuthun 3 Penrhyn-coch 1
25 Penrhyn-coch 1 Dinbych 1

**Cwpan Cynghrair Gwasanaeth Gwaed Cymru 25/26**
*Awst*
30 Penrhyn-coch 0 Treffynnon 2

**Cynghrair**
*Medi*
6 Hotspur Caergybi 1 Penrhyn-coch 1

**Eilyddion Penrhyn-coch**
*Awst*
2 Eilyddion Penrhyn-coch 1 Ffostrasol 4
9 Eilyddion Penrhyn-coch 4 Tîm datblygu Caersŵs 2
13 Machynlleth 0 Penrhyn-coch 1
19 Llanidloes 0 Eilyddion Penrhyn-coch 4
27 Eilyddion Penrhyn-coch 2 Bont 0

*Medi*
6 Eilyddion Penrhyn-coch 2 Eilyddion Ceri 1

## Cylch Cinio

Wedi egwyl dros yr haf daeth yr aelodau ynghyd i westy'r Pedwar Tymor ddechrau Medi i agor pennod newydd yn hanes Cylch Cinio Aberystwyth.

Y gwleidydd adnabyddus Cynog Dafis yw'r Cadeirydd newydd ac fe wnaeth gymryd at yr awenau fel hen law ar y llwyfan cyhoeddus gwleidyddol.

Ein siaradwraig wadd yn y cyfarfod agoriadol oedd Gwerfyl Pierce



Noson agoriadol Cylch Cinio Aberystwyth a gynhaliwyd yng ngwesty'r PedwarTymor. Yn y llun mae'r Cadeirydd newydd Cynog Dafis gyda'r siaradwr gwadd Gwerfyl Pierce Jones, Caderydd HAHAV ynghyd a Huw Prys Williams yr Ysgrifennydd. Hefyd yn y llun mae Wynne Melville Jones a Dafydd Evans.

# Mair Davies 1947-2025

Fel yr adroddwyd yn Nhincer Mehefin bu farw Mair Davies ar 30 Mai. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Pen-llwyn ar Fehefin 25 dan ofal y Parchg Judith Morris gyda Lowri Guy wrth yr organ ac i ddilyn ym mynwent Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch. Dyma ddetholiad o deyrnged Ellen Hywel ddarllenwyd gan y Parchg Judith Morris yn yr angladd.

**Mair Davies 1947-2025 gynt o Meurig Cottage, Penrhyn- coch a Thŷ Capel, Aber-ffrwd**

Ganwyd Mair ar Fai 30ain, 1947 ym mhentref Pren-teg, ger Porthmadog – a bu farw ar ddiwrnod ei phen blwydd yn 78 oed. Fe'i magwyd ar fferm Tŷ Mawr, Pren-teg- tyddyn gydag ychydig o dir wedi ei leoli ar yr ucheldir uwchben Tremadog, gyda golygfa o'r Cob a'r môr i'r dde ac yna mynyddoedd Meirionnydd i'r chwith.  O'r cartref hwnnw, dan lygaid craff ei rhieni Nel a Harri Owen, y mwynhaodd hi a'i chwaer Menna, yr hyn a oedd yn swnio i mi fel plentyndod delfrydol.

Bu'n byw yn Nhŷ Mawr gyda'i thad tan ddiwedd ei hugeiniau. Cyfarfu â Dad (Henry) mewn twmpath yn Ninas Mawddwy – ac ar ôl ychydig flynyddoedd o garwriaeth, priodasant a symud i Aber-ffrwd, ac yn ddiweddarach, Penrhyn-coch. Roedd ffermio yn rhan fawr o fywyd mam – o'i dyddiau cynnar fel merch fferm i ddod yn wraig fferm ac yn aelod o deulu ffermio ehangach ar ôl priodi.  Roedd hi'n mwynhau bod yn rhan o'r diwrnodau prysur a dwi'n cofio diwrnodau cneifio fyny yng Nghwm Canol neu draw



yn Nhroedrhiwceir – mi fyddai Mam wrth ei bodd yn helpu gyda pharatoi a gweini'r bwyd i'r criw a fyddai wrthi, cynnig cymorth lle bynnag y gallai.  Roedd helpu eraill yn rhywbeth wnaeth Mam trwy'i bywyd.

Ar ôl symud i fyny i Dre-garth 10 mlynedd yn ôl, daeth yn rhan o fywyd pob dydd ni fel teulu – cafodd fwynhad mawr yn helpu ni gyda'r plant dros y blynyddoedd diwethaf. Nid oedd yn hoffi bod ar ei phen ei hun — roedd hi wastad allan ac o gwmpas, yn ymweld â phobl, yn gwneud negeseuon ac yn sgwrsio â chymdogion. Ar ôl i Dad farw, roedd cefnogaeth ei ffrindiau ym Mhenrhyn-coch yn golygu cymaint iddi — fel yr oedd ei hamser yn gweithio yn Neuadd Pantycelyn, lle daeth cydweithwyr yn ffrindiau gydol oes. Rhoddodd y swydd honno ymdeimlad newydd o bwrpas iddi mewn cyfnod anodd iawn, ac fe'i helpodd i barhau ar ôl colled mor boenus.

Bu'r ardd ym Mhenrhyn-coch yn rhan mawr o ymdopi â'i galar hefyd, roedd yn mwynhau cadw'r lle'n daclus a gofalu am y blodau a blannwyd gan Dad yn y blynyddoedd cynt. Roedd teulu a chyfeillgarwch yn golygu popeth i Mam. Gwnaeth ymdrech wirioneddol i aros mewn cysylltiad gyda theulu a ffrindiau — bob hyn a hyn dros fisoedd yr Haf mi fyddai yn annog Menna i ddod efo hi ar daith i Aberystwyth!  Byddwn yn ei cholli – ei chynhesrwydd, ei straeon, ei phresenoldeb tawel, a'r cariad a roddodd mor hael. Ond rwy'n gwybod ei bod hi gyda ni bob dydd – yn ein hannog i gario mlaen, ac i garu a gofalu am ein gilydd.  Diolch, Mam – am bopeth.

**Diolch**

Dymuna Ellen a'r teulu ddiolch am bob neges o gydymdeimlad a dderbyniwyd ac am y rhoddion a gasglwyd tuag at Ymchwil Canser Cymru er cof am Mair. Maent hefyd yn dymuno diolch i Selwyn, Eleanor a'r tîm am eu cefnogaeth ac i'r Parchedig Judith Morris a Lowri Guy am arwain a chyfeilio yn y gwasanaeth.

---

Jones. Yn enedigol o Gaergybi, Ynys Môn, mae Gwerfyl wedi ymgartrefu yn Aberystwyth ers blynyddoedd ac wedi cymryd ei lle ym mywyd y dref a'r ardal.

Wrth ei chyflwyno cyfeiriodd Cynog at gyfraniad sylweddol Gwerfyl i fywyd Cymru fel darlithydd a swyddog celfyddydol ac i fywyd diwyllianol y genedl. Daeth i sylw cenedlaethol yn ei swydd fel Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru. Wedi ymddeol mae'n dal yr un mor ddiwyd ac fe gyfeiriwyd yn benodol at ei chyfraniad meistrolgar yn llywio'r prosiect o ail greu Neuadd Pantycelyn ym Mhrifysgol Aberystwyth.  Ers wyth mis hi yw Cadeirydd HAHAV yr elusen leol sy'n darparu cefnogaeth i gleifion sy'n dioddef o salwch terfynol a phroblemau cysylltiol.

Yn ei sgwrs wedi'r cinio rhoddodd Gwerfyl gyflwyniad i ni am waith yr elusen. Talodd deyrnged uchel i'r sylfaenydd y Dr Alan Axford am ei waith diflino ac am ei angerdd a'i frwdfrydedd.

Mae HAHAV yn llanw bwlch pwysig gan mai Ceredigion oedd y sir olaf yng Nghymru  i ddatblygu gwasanaeth yn y maes pwysig hwn. Soniodd Gwerfyl am yr heriau ariannol ac am y prosiect enfawr i addasu Plas Antaron, Penparcau fel cartref i'r elusen. Nodwyd pwysigrwydd cefnogaeth wirfoddol mewn amryw o feysydd.

Ar hyn o bryd mae datblygu ac am ddatblygu ychwanegol i gefnogi dementia a galar yn flaenoriaeth. Roedd yn amlwg bod gan Gwerfyl hefyd yr ymroddiad a'r angerdd dros yr achos.

Cytunodd yr aelodau y dylai'r Cylch Cinio gyfrannu yn ariannol i gefnogi'r gwaith. Talwyd y diolchiadau gan Eddie Jenkins, Llandre a Richard Owen, Penrhyn-coch oedd enillydd y raffl. Braf oedd estyn croeso i Harold Jones fel aelod newydd i'r Cylch.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn y Clwb Rygbi, Plas-crug, ar nos Wener Hydref 10fed.




# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Ar fin y ffordd ym mlaen dyffryn Camddwr, sef cangen orllewinol cronfa Nant y Moch, mae llechen sy'n cofiáu capel *Tabor*, neu *Dabor y Mynydd*.[1] Fe'i hadeiladwyd yn 1871 fel cangen o gapel Annibynwyr Bethel, Tal-y-bont, ond dymchwelwyd ef adeg codi'r argae yn yr 1960au.




Er bod lleoliad *Tabor* yn ymddangos yn anghysbell heddiw, rhaid cofio iddo gael ei sefydlu yn oes aur y mwyngloddiau plwm pan fyddai gweithlu mawr yn byw yn yr ardal. Pan ddaeth tranc y gweithfeydd hynny tua diwedd y 1920au, cau fu hanes y capel bach yn ogystal.

Fel cynifer o enwau ein capeli, enw Beiblaidd yw *Tabor*, yn deillio o *Fynydd Tabor*, safle gweddnewidiad Crist. Ond ar lafar, câi'r *Tabor* arbennig hwn ei adnabod hefyd fel *Capel Sbaen*.

Ceir tystiolaeth o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen o fodolaeth bwthyn o'r enw *Sbaen* fymryn i'r gogledd o safle capel Tabor.[2] Fe'i nodir fel *Ysbaen* ar fap diddyddiad stad Gogerddan o weithfeydd mwyn gogledd Ceredigion,[3] *Spaen* ar fap yr un stad o rai o luestai'r fro yn 1859,[4] *Yspaen Coatage* [sic] yng Nghyfrifiad 1861, a *Spaen, Eagle Brook*, ar garreg fedd a ddyddiwyd 1868 ym mynwent Bethel, Tal-y-bont. Awgryma'r cofnod *yspaen Barracks*, ochr yn ochr ag *yspaen Cottage*, yng Nghyfrifiad 1871 fod llety helaethach wedi ei godi yno erbyn hynny i gartrefu gweithwyr. Ac erbyn diwedd y ganrif, dengys troednodyn ar gerdd yn nghyfrol Llwyd Fryniog, *Telyn Trefeurig*, fod yr enw'n cael ei ddefnyddio am yr ardal o amgylch y capel.[5]


Adroddir y traddodiad lleol canlynol ynghylch tarddiad yr enw yn *Nabod Cymru*:[6]

> Dywedodd un o'r mwynwyr wrth gyfaill ei fod am ymfudo i un o fwyngloddiau Sbaen ond pan gyfarfu'r ddau ym mhen blwyddyn 'roedd y mwynwr yn codi tŷ ar lannau Camddwr. 'Fan hyn mae dy Sbaen di, felly,' meddai'r cyfaill, a Sbaen fu enw'r tŷ byth oddi ar hynny.

Ond mae'n werth ystyried posibilrwydd arall.

Rhyw filltir neu ddwy i'r gogledd o'r llecyn hwn mae gweddillion gwaith mwyn Esgair Hir, gwaith a gâi ei adnabod ar un adeg fel *Welsh Potosi* ar ôl cloddfa arian enwog a ffyniannus *Potosi* yn Bolivia. Mae'n eithaf sicr i'r enw hwnnw gael ei fabwysiadu mewn ymgais fwriadol i ddenu buddsoddwyr.

Yn *The Mines of Cardiganshire*, cofnodir yr enw *Spain* am 'trial level' ar ochr ddwyreiniol Cerrig yr Hafan, ar y llethr y tu cefn i safle capel *Tabor*, er na chaiff ei ddyddio ac na roddir unrhyw fanylion pellach yn ei gylch.[7] Tybed ai ymgais oedd yma hefyd i ddefnyddio enw *Sbaen*, gwlad enwog am gynhyrchu mwynau gwerthfawr, fel ffordd o ddenu buddsoddiad?




**Map 6" yr Arolwg Ordnans, Ceredigion IV SE (ail arg. 1906)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Cam naturiol fyddai galw bwthyn a barics cyfagos â'r un enw, a gallasai'n hawdd fod wedi lledu wedyn i gyfeirio at y capel a'r ardal ehangach. Os oes coel ar y ddamcaniaeth hon, fe brofodd yr enw *Sbaen* dipyn yn fwy hirhoedlog na'r gwaith mwyn!

Ceir rhagor o wybodaeth am Sbaen gan Ioan Lord yn y gyfrol *'The Welsh Potosi': metal mining, railways and industrial society in the Plynlimon Mountains* (2023).

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru
a Geiriadur Prifysgol Cymru https://www.geiriadur.ac.uk/

1. SN73628860.
2. SN73638866.
3. Map Gogerddan 9104, [North Cardiganshire Mining District] (dim dyddiad).
4. Map Gogerddan 24, 'Plan of Dolrhyddlan, Waunescog, Moelferem / Brynfedwen-fawr & Cyneinog' (1859).
5. J. Ll. Nuttal: *Telyn Trefeurig* (1896), 44, Gelwir yr ardal lle saif Tabor, yn Yspaen.
6. Cledwyn Fychan, *Nabod Cymru* (1973), 69.
7. J. R. Foster-Smith, *The Mines of Cardiganshire*, (British Mining No. 12) (1979), 47. Dyma'r 'Old Level' a nodir ar y map yn SN73478854.

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758



# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth**
**21/06/2025**
(686 gyda chliriad llwyr )
Gwerthwyd y cyfan o'r ychydig gynigiwyd i fasnach dda gyda llai o alw am y defaid teip mynydd. Gwerthodd yr ŵyn stôr am bwysau da a chafwyd masnach gyson dda ar draws y bwrdd am ddefaid lladd a hyrddod.
Prisiau fel a ganlyn:
Defaid lladd (499) Cyf. £102 Mwy £187 gan Jenkins, Cerrigcarannau
Hyrddod lladd(20) Cyf £180 Mwy £198 gan Innovis
Ŵyn cynnar (59) Cyf £123 Mwy £165 gan Davies, Goglwyd.
Ŵyn blwydd (107) Cyf £56 Mwy £84 gan Pryce, Ciliau Uchaf.
Sêl dda heddiw gyda phrisiau da. Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.

**19/07/25**
(719 gyda chliriad llwyr )
E'n bendithiwyd gyda hyd yn oed mwy o brynwyr heddiw, gyda llawer yn edrych am famogiaid / wyn am wyna cynnar. Roedd y masnachu called gydol y dydd gyda'r wyn well covered yn wynebu gwerthiant arbennig a'r wyn cadw hefyd yn mynd yn dda / met a fair trade!

Roedd prisiau fel a ganlyn:
Defaid lladd (517) Cyf. £108.60 Mwy £199 gan Hamer, Glenydd, New Cross
Hyrddod lladd (17) Cyf £121 Mwy £188 gan Lewis, Henllan
Ŵyn Stôr (157) Cyf £125 Mwy £171.50
Ac un arall am £151 gan Corfield, Blaencarrog
Ŵyn blwydd (28) Cyf £89 Mwy £130 gan Williams, Bwlchcrwys

**02/08/2025**
(1186 gyda chliriad llwyr )
Digon o brynwyr yn bresennol eto heddiw. Roedd y fasnach famogiaid yn gryf gydol y dydd. Roedd y fasnach ŵyn yn haws o'i chymharu â phythefnos nôl.
Roedd y prisiau fel a ganlyn.
Defaid lladd (611) Cyf. £107.83 Mwy £189 gan Evans, Llwynhywel, Llanilar a hefyd T Jones Cae Balco, Swyddffynnon



Hyrddod lladd (1) Mwy £181 gan y Brodyr Hamer, Glenydd, New Cross
Ŵyn stôr (483) Cyf £97.13 Mwy £150
Ac un arall i £146 gan Ellis, Nantgwynfynydd, Llan-non.
Brokers magu (80) Cyf £146 gan Morgan a Jones, Morfa, Aberystwyth.
Cyf £98.28
Gwerthwyd hefyd famogiaid Mr Jones Cae Balco am £189

Dwy sêl dda arall gyda phrisiau da Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr am eu cefnogaeth.

**16/08/25**
(cynigiwyd 1765)
Roedd popeth yn anoddach i'w gwerthu heddiw oherwydd y sychder a'r prisiau lladd yn gostwng.

Roedd y prisiau fel a ganlyn:
Mamogiaid (1018) Cyfar £91.80 Mwy £164 gan Williams, Tafarn y Crug Isaf, Capel Seion.
Hyrddod (23) Cyfar £127 Mwy £312 gan Loxdale, Castle Hill, Llanilar.
Ŵyn Stôr (725) Cyfar £108 Mwy £162 gan Davies, Fferm Cefnfaenor, Capel Dewi.
Y tywydd sych wedi gadael ei ôl ar y trêd heddiw gyda phopeth yn fwy anodd i'w werthu. Diolch am y gefnogaeth barhaol.

**30/08/2025**
(cynigiwyd 1855)
Yn falch o allu dweud i'r mamogiaid fod yn hawdd i'w gwerthu. Roedd yr ŵyn yn anoddach i'w gwerthu heddiw yn arbennig y rhai bach cadw. Roedd galw am y mamogiaid magu a byddem wedi medru gwerthu llawer mwy. Roedd y prisiau fel a ganlyn:

Defaid lladd (877) Cyfart £78.60 Mwy £166 gan Evans, Pencraig Farm, y Borth.
Mamogiaid magu (173) Cyfart £124.97 Mwy £180 gan Lloyd, Byrdir, Uwchygarreg.
Brokers magu (221) Cyfart £77.47 Mwy £125.00 gan Jones, Gelli Llyndu, Tregaron.
Hyrddod (7) Cyfart £132 Mwy £152 gan Davies, Goglwyd, Llangoedmor.
Ŵyn Stôr (577) Cyfart £85.67 Mwy £146 gan Evans, Cwmwythig, Capel Bangor.
Roedd yr hen ddefaid yn gwerthu'n dda ond yr ŵyn ychydig yn anoddach i'w gwerthu oherwydd y tywydd sych. Diolch am y gefnogaeth.

**Ysgol Uwchradd**
Pob dymuniad da i Mabli ap Llywelyn, Rhydyceir, Madog, ym Mhenweddig.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Jayne Sedgewick a'r teulu ar farwolaeth ei thad sef Raymond Jones, Grovenor, Llanbadarn (gynt o Gwmsymlog). Cynhaliwyd yr angladd dydd Llun 15 Medi ym mynwent Cwmsymlog.



**Priodas Diemwnt**
Llongyfarchiadau Lyn a Dei Deilyn, Cefn Llwyd, Capel Dewi, sy'n dathlu eu pen blwydd priodas ddiemwnt ar y deunawfed o Fedi.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Sara Mitchell, Maesydderwen, Capel Dewi, ar fod yn un o enillwyr cystadleuaeth stori fer cwmni cyhoeddi Sebra 2025 yn ddiweddar. Mae gwaith Sara wedi'i gynnwys yn y cyhoeddiad *Pelydrau*, a lansiwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam eleni ac sydd ar gael yn awr yn eich siop lyfrau leol. Llongyfarchiadau mawr iti ar dy lwyddiant a phob lwc iti â'r sgwennu yn y dyfodol.

**Banc y Darren**
Cydymdeimlwn â Debbie ac Eirion, Fferm y Darren, ar golli mam Debbie ar 8 Gorffennaf.

**Gyrrwr newydd**
Llongyfarchiadau i Ifan Morris, Plas y Fronfraith, ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar.

# Dolau

**Pen blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Trefor Jones, Cwmcae, a fu'n dathlu ei ben blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

**I'r Coleg**
Llongyfarchiadau i Osian King ar ei ganlyniadau lefel A a dymuniadau gorau ar ei gwrs peirianneg fecanyddol ym Mhrifysgol Warwick.

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i Megan a Sian, Caehaidd, Cwmrheidol, am wneud mor dda yn eu harholiadau. Pob lwc i Sian yn y chweched dosbarth yn Ysgol Pen-glais ac i Megan ym Mhrifysgol Aberystwyth ar ôl ennill ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg a chael Cynnig Diamond Prifysgol Aberystwyth lle bydd yn astudio'r gyfraith.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Beryl Davies, Troedrhiwceir ar golli chwaer – Harriet Roberts o Fotwnnog ym Mhorthmadog ar 16 Awst.

Erbyn hyn mae Dafydd Morris, Neuadd Parc, yn gwella yn dda ar ôl torri ei goes dechrau mis Gorffennaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag ef ar farwolaeth ei ewythr David Morris yn ystod yr haf.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Alun Jenkins, Carreg Wen, Bow Street neu Alun Pen-ffrwd fel ei adnabyddir yn lleol. Roedd ganddo gysylltiad agos â'r Cwm gan i'w dad gael ei eni ym Mhen-ffrwd ac erbyn hyn mae ei fab Aled wedi ail adeiladu Pen-ffrwd Fach. Roedd Alun wrth ei fodd yn ymweld â'r Cwm. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mair, Gareth, Dylan ac Aled a'r teulu i gyd yn eu colled.

**Gwella**
Mae John Lewis, Dolgamlyn, wedi dioddef dipyn yn ddiweddar. Ar ôl cael clun newydd yn Ysbyty Gobowen gorfu iddo dreulio peth amser yn Ysbyty Bron-glais. Erbyn hyn mae yn teimlo dipyn yn well.

**Croeso**
Croeso mawr i deulu newydd sydd wedi symud i Llyn-ddu a hefyd i Pant-y-ddwyriw.

**Sioeau**
Bu nifer o bobl lleol yn cefnogi y sioeau bach yn ystod yr haf. Roedd y ceffylau gwedd yn ôl yn eu hanterth eleni a llongyfarchiadau mawr i deulu Troedrhiwceir ar eu llwyddiant.

**A1**

Yr ydym yn gariadon – Alexa
a finna; rwyf heno'n
tybio o'i holl atebion
fod 'na wres i anwes hon.

*Cynnyrch tîm Ceredigion yn Ymryson y Beirdd*




**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

**RHYD-Y-PENNAU**
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

**MID WALES STORAGE**
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Storfa Cartref a Busnes





Ystafelloedd storio ar gyfer Eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogo
Bocsys a 'bubblewrap' ar lein
MID Wales REMOVALS
www.midwalesstorage.co.uk
Ffon : 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
SCAN ME





**JONATHAN LEWIS**
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
LLWYNDAFYDD, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
*Ar agor*
*Llun-Sadwrn*
*9.00-4.30*
*Sul: Ar gau*
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

## Llandre



### Croeso Adref

Ganol Awst croesawyd Megan Mason adref, ar ôl bod yn gweithio ers mis Mai gyda “Camp America” yn Camp Green Cove, North Carolina, UDA yn dysgu Natur i ferched 7-9 oed.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad â Megan Rogerson, ar golli chwaer – Harriet Roberts o Fotwnnog ym Mhorthmadog ar 16 Awst

Ac â Huw a Nia Gruffydd Williams, Cysgod y Gaer, ar farwolaeth tad Huw ym Mhontiets.

**Arholiadau**

Yn dilyn llwyddiant yn yr arholiadau yn Ysgol Gyfun Penweddig llongyfarchiadau i Lleucu Sion, Tyddyn Llwyn sydd yn cychwyn ar gwrs gradd mewn Ffiseg ym Mhrifysgol Caerhirfryn.

Nia Clubb, Ysgoldy sy’n mynd i Brifysgol Abertawe i astudio Hanes

Miri Llwyd, Pentan, Lôn Glanfred sydd wedi dewis cymryd blwyddyn allan cyn ail gydio mewn hyfforddiant perfformio. Pob llwyddiant iddyn nhw.

Dymuniadau gorau hefyd i Heddwyn ap Ioan Cunningham ar ei brentisiaeth a ‘i gwrs peirianneg yng Ngholeg y Drenewydd a Dyfri ap Ioan Cunningham ar ei gwrs daearyddiaeth ffisegol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

## Cymru yn Fenis

Llongyfarchiadau mawr i Dylan Huw, Bancyreithin (Caernarfon bellach) a’r artist Manon Awst ar gael eu dewis i gynrychioli Cymru yn y Venice Biennale y flwyddyn nesa. Bydd eu gwaith i’w weld yn yr ŵyl ryngwladol yn Fenis rhwng Mai a Tachwedd 2026.
Mae Cymru yn Fenis yn cael ei gomisiynu a’i reoli gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae blwyddyn brysur a chyffrous iawn o flaen Dylan a Manon.



Llun: Dewi Tannatt Lloyd.











inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Oedfaon Capel Pen-llwyn**
*Medi*
**21** 5.00 Judith Morris
**28** I'w drefnu

*Hydref*
**5** 10.00 I'w drefnu
**12** 5.00 Carwyn Arthur (R)
**19** 10.00 Ifan Mason Davies
**26** 2.00 Rhidian Griffiths

Croeso cynnes i bob un, byddem wrth ein bodd o gael eich cwmni gyda ni yn y gwasanaethau

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn fel ardal â Mr. a Mrs. Wynne Jones, Tangaer wrth iddynt golli cyfnither ym marwolaeth Mrs. Eileen Jones, Penparcau yn ddiweddar.

Hefyd rydym yn meddwl am deulu Mrs. Mary Jones, Llety Gwyn gynt. Bu farw Mary yn ddiweddar, roedd yn aelod ffyddlon o Ferched y Wawr, Melindwr am flynyddoedd, ac wedi dal swyddi blaengar o fewn y Gangen. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu galar a'u colled.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mr. Alun Jenkins, Pandy gynt, ond a oedd yn byw yn Carreg Wen, Bow Street erbyn hyn. Pen-llwyn oedd ardal enedigol Alun ac roedd wrth ei fodd yn ymweld â'i hen ardal yn rheolaidd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Mair a'u meibion, Gareth, Dylan ac Aled a'u teuluoedd yn eu galar a'u colled. Cawn deyrnged yn y rhifyn nesaf.

## Merched y Wawr Melindwr

Canol mis Mehefin Yr Ardd Fotaneg oedd ein cyrchfan ar gyfer ein trip blynyddol eleni. Cafwyd paned o goffi yn y Cawdor yn Llandeilo a threuliwyd gweddill y prynhawn yn crwydro y gerddi. Roedd y tywydd yn eithaf ffafriol a chafwyd amser braf iawn. I orffen y diwrnod cawsom bryd o fwyd blasus yn y Plough yn Llandeilo. Diolch i Rita a gweddill y pwyllgor am wneud y trefniadau, popeth yn gweithio yn hyfryd iawn.

Diwedd Mehefin bu Gŵyl Flodau yn Eglwys Capel Bangor. Diolch i Eirlys ac Eirwen am y trefniant blodau hyfryd wedi ei seilio ar liwiau Merched y Wawr.

Nos Fawrth gyntaf y mis oedd noson agoriadol tymor 25/26 Merched y Wawr Melindwr. Diolch i swyddogion Capel Pen-llwyn am y caniatâd i ddefnyddio y festri ar fyr rybydd gan fod yna waith cynnal a chadw yn cael ei wneud yn y neuadd.

Croesawodd Nia Davies ein Llywydd a phawb arall a hyfryd oedd croesawu aelodau newydd. Ein siaradwraig wadd oedd Meinir Edwards yn rhoi hanes y cylchgrawn *Cara*.

Sefydlodd hi a'i merch y cylchgrawn tua 10 mlynedd yn ôl ac mae yn mynd o nerth i nerth. Roedd yn ddiddorol iawn dysgu am yr heriau maent yn eu hwynebu i gael tri chopi allan pob blwyddyn. Noson ddiddorol iawn. Diolchodd Nia a mwynhawyd cwpanaid o de wedi ei pharatoi gan y pwyllgor.



**Arddangosfa Merched y Wawr Melindwr yng Ngŵyl Flodau Eglwys Dewi Sant Capel Bangor**


**Aelodau Merched y Wawr Melindwr yn mwynhau ar ei trip i Gerddi Botaneg ym mis Mehefin**

**Llwyddiannau**
Llongyfarchiadau cynnes i Ffion Williams, Brynrheidol a lwyddodd i ennill Gradd Cyntaf mewn Hanes a Gwleidyddiaeth yr Americas yn U.C.L. Llundain yn ddiweddar. Mae llawer blwyddyn erbyn hyn ers pan fu Ffion yn aelod cyson a gwerthfawr o Ysgol Sul Pen-llwyn, ardderchog wir.

Llongyfarchiadau hefyd i bob un fu yn llwyddiannus yn arholiadau TGAU a Lefel A yr haf yma, roedd y gwaith caled wedi talu ar ei ganfed, dymuniadau gorau i'r dyfodol i chwi i gyd. Pob dymuniad da hefyd i bob un fydd yn newid ysgol ddechrau'r tymor, mae yn eithaf her i fynd o ysgol fechan yn y wlad i ysgol uwchradd fawr yn y dref. Mwynhewch y profiad a gweithiwch yn galed, cewch eich gwobrwyo gyda hyn.

**Dechrau Gyrfa Newydd**
Mae Gruffydd Rhys Evans, Ty'n Llan wedi bod yn chwarae rhan flaenllaw yn nrama William Shakespeare, Julius Cesar, yn Llundain dros yr haf. Mae ar ei flwyddyn olaf ar gwrs actio yn RADA. Nid yn unig y bu iddo gael lle yn y coleg byd enwog hwn ond hefyd ennillodd dair ysgoloriaeth gan gynnwys Ysgoloriaeth Syr Ian McKellen y bydd yn ei dal am dair mlynedd. Rydym i gyd yn ymwybodol o'r gystadleuaeth frwd i ennill lle yn RADA gan mai ond 28 myfyriwr a gaiff eu dewis bob blwyddyn, allan o sawl mil sy'n ymgeisio. Rydym fel ardal yn browd iawn ohonot Gruffydd, pob dymuniad da i ti i'r dyfodol, fe fyddi ar ein sgrîn deledu yn fuan iawn.

**Pen blwyddi arbennig**
Ar y 4ydd o Awst fe ddathlodd Mrs. Eluned Scott, Awelon, ei phen blwydd yn bedwar ugain oed. Er ei bod wedi treulio ychydig amser yn Bwa, cafodd ei ffrindiau y fraint o ymuno â Noel a Heather wrth ymweld â hi, a phrofi y gacen ben blwydd hyfryd oedd wedi ei pharatoi i'r achlysur. Hyderwn y cawn ei chwmni yn ôl gartref gyda hyn.

Hefyd ar Awst 28ain, diwrnod Mrs. Glenys Griffith oedd hwn wrth iddi ddathlu ei phen blwydd yn bedwar ugain a deng mlwydd oed. Cafodd amser hyfryd ymysg ei theulu a the prynhawn arbennig yn Llandudno ar y dydd, pan ddaeth Elfyn a'i deulu a Carwen a'i theulu hithau ynghyd. Trip bach wedi hynny i'w chartref genedigol a chwrdd a mwy o'i thylwyth, amser i'w drysori yn wir.

Pen blwydd hapus hwyr hefyd ein gohebydd i Heulwen Lewis, Deiniol, ddathlodd ben blwydd arbennig yn ystod mis Awst (Gol.)

**I'r Coleg**
Llongyfarchiadau i Tomi Jones ar ei ganlyniadau lefel A a dymuniadau gorau ar ei gwrs Peirianneg ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Priodas Arian**
Llongyfarchiadau i Mrs. a Mrs. Elystan Evans, Ardwyn ar ddathlu ohonoch eich Priodas Arian ar y 9fed o Fedi. Ble mae'r blynyddoedd wedi mynd dwedwch. Dymuniadau gorau i'r dyfodol i chi eich dau.

**Sioe Capel Bangor**
Llongyfarchiadau i Fridfa Arthen ar ei llwyddiant ysgubol gyda'r ebol. Dyma'r tro cyntaf o adref i'r ebol ac fe gafodd ddiwrnod llwyddiannus mewn cwmni da.

Enillodd y dosbarth i ebolion Adran D ac yna aeth ymlaen i ennill:

* Pencampwr Ebolion Cymreig
* Pencampwr stoc ifanc Adran D
* Pencampwr Adran D
* Pencampwr Stoc Ifanc Adrannau Cymreig a Rhan-frid Cymreig.
* Pencampwr Adrannau Cymreig a Rhan-frid Cymreig

Dyma'r tro cyntaf i geffyl mor ifanc ennill yr holl bencampwriaethau.



Liz Collinson yn derbyn ei gwobr oddi wrth y Llywyddes Mrs Cynthia Evans, ar ennill y gwobrau am y cynnyrch gorau lleol, a mwyaf o bwyntiau gan berson lleol yn y babell cynnyrch yn Sioe Capel Bangor a'r Cylch. Unwaith eto braf yw gweld fod y sioe wedi bod yn llewyrchus gyda chystadlu brwd, tywydd braf a'r cyhoedd wedi mynychu yn eu niferoedd i gefnogi.



**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i'r canlynol a fu yn yr Ysbyty yn ystod misoedd yr haf, hyderwn eich bod adref erbyn hyn ac yn gwella yn foddhaol iawn:

Mrs. Aeronwy Lewis, Rheidol Bank, Mrs. Eluned Scott, Awelon, Mr. Garth Hughes, Bryn Awelon, Mr. Gareth Humphreys, Y Fron, Mr. Idloes Roberts, Ty'n Llan.



## Llwyddiant i Rhydian

Llongyfarchiadau calonog i Rhydian Davies gynt o Ceunant, Pen-llwyn a dderbyniodd dystysgrif yn ddiweddar mewn cynhadledd ym Mryste ar ôl llwyddo gyda chredyd yn arholiadau Archif a Chadwraeth. Mae Rhydian yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac yn fawr ei barch gan ei gydweithwyr. Da yw clywed am lwyddiant ein hieuenctud bob amser.

## Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd tridiau o Ŵyl Flodau gan gynnwys nifer o weithgareddau i'r plant ar brynhawn dydd Gwener tan prynhawn dydd Sul, 27ain – 29ain o Fehefin 2025 yn yr Eglwys. Hyfryd oedd gweld cymaint o arddangosfeydd o flodau wedi eu gosod i fyny. Cymerwyd rhan gan Gapel Pen-llwyn, Cyngor Cymuned Melindwr, Merched y Wawr Melindwr, Sefydliad y Merched Pen-llwyn, Ysgol Gynradd Pen-llwyn, a'r unigolion o'r ardal. Llongyfarchiadau i Beti a Nerys Daniel, Glynrheidol am yr arddangosfa orau. Beirniadwyd yr arddangosfeydd gan Y Parchedig Canon Andrew Loat. Cafwyd tridiau llwyddiannus o arddangosfeydd bendigedig. Roedd yr arddangosfeydd i gyd yn wahanol iawn i'w gilydd ac yn wledd i'r llygaid. Dyma ymdrech Capel Pen-llwyn, gyda chymorth Eirlys Davies, Bryn Meillion, sy'n feistr ar ei chrefft.





**Diolch i bawb am eu gwaith trylwyr gyda'r arddangosfeydd.**







## ... rhagor o Capel Bangor / Pen-llwyn

**Draw o Dubai**
Roedd yn braf gweld Elinor Davies Fearn a'r ferch fach yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd gan Elinor safle yn gwerthu ei chynnyrch gwallt yn yr Ŵyl.

**Agor yn y dref**
Dymuniadau gorau i Alister Dryburgh o West Wales Antiques sydd wedi agor siop yn y dref yn 7 Stryd Portland Uchaf – lle'r arferai fod Cerdd Ystwyth.

## Clarach

**Graddio**
Llongyfarchiadau i Lili Lewis, a raddiodd gydag anrhydedd mewn astudiaethau plentyndod cynnar gyda statws ymarferydd yn Aberystwyth yr haf yma. Dymuniadau gorau iddi ar ei chwrs TAR ym Mhrifysgol Met Caerdydd ar gyfer bod yn athrawes.

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

## Goginan

**Llongyfarchiadau**
Braf oedd clywed am lwyddiant Phoebe Alban, Y Deri ar ei chanlyniadau TGAU a phob dymuniad da wrth iddi gario ymlaen â'i haddysg bellach ym Mhenweddig.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn gyda Michelle, Pheobe a Macs, Y Deri wrth glywed am farwolaeth Brian Rix, tad a thad-cu annwyl. Roedd Brian wedi symund yn ôl i fyw i Abertawe wedi treulio llawer o flynyddoedd yng Nghwmbrwyno. Cydymdeimlwm gyda Michelle, Sylvia, Mark a'r teuluoedd oll.

**Ymddeoliad**
Pob lwc i Wendy Davies, Glwysle, ar ei hymddeoliad. Rydym yn sicr bydd Fredi a Tomi ei wyrion yn falch iawn o gael treulio mwy o amser yn ei chwmni.




Cafodd siec o £500 ei chyflwyno i'r RNLI yn y Druid fel rhan o elw y "Proms yn y Cae" a drefnwyd gan aelodau o Gymdeithas Goginan.

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

YTincer@googlemail.com

## Cyfrinachau y Llyfrgell

Nos Lun 15 Medi lansiwyd cyfres newydd o Cyfrinachau y Llyfrgell yn y Llyfrgell Genedlaethol. Dyma Caryl Lewis fydd yn un o'r pedwar gwrthrych yn y gyfres hon – darlledwyd y gyntaf (Mark Drakeford) nos Fawrth 16 am 9.00. Sian Phillips fydd yn yr ail a Scott Quinnell a Caryl yn y ddwy olaf.



## Colofn **Elin Jones AS**



Gobeithio bo chi'n mwynhau'r diwrnodau hir o haf rydyn ni'n cael eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi bod yn cystadlu ac yn llwyddiannus yn yr holl Eisteddfodau a sioeau amaethyddol dros y sir. Fues i'n Eisteddfod Wrecsam, ble cafwyd wythnos wych llawn bwrlwm a digwyddiadau, a dwi wedi mynychu nifer o'r sioeau lleol hefyd. Mae'n bleser gweld ffrwyth llafur a chynnyrch gwych Ceredigion ar ei orau.

Daeth newyddion da ym mis Awst fod deiseb y Senedd i arbed gwasanaethau strôc Bronglais wedi bwrw'i tharged o 10,000 o lofnodion arlein. O fewn llai na mis, roedd gwaith caled nifer o aelodau'r gymuned a'r grŵp Arbed Gwasanaethau Bronglais o gasglu'r holl lofnodion wedi talu ffordd, a diolch i bob un ohonoch fu mor barod i lofnodi'r ddeiseb. Bydd y Senedd nawr yn ystyried codi dadl ar lawr y Senedd yn seiliedig ar y ddeiseb, a gobeithio gallwn gadw gwasanaethau strôc llawn ym Mronglais. Nid yw'n dderbyniol disgwyl i deuluoedd a dioddefwyr strôc i orfod teithio'r holl ffordd i Lanelli, er mwyn derbyn triniaethau, sydd eisoes ar gael gyda ni yn Aberystwyth. Ac mae'n bwysig i ni gofio fod Bronglais hefyd yn gwasanaethu trigolion Powys a Meirionydd.

Mae sawl wythnos bellach ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar ei newydd wedd, wedi mwy o waith ar y cyd gyda ffermwyr, undebau, ac arbenigwyr. Bydd y cynllun yn dechrau yn Ionawr 2026, ac rwy'n awyddus i glywed ganddoch os oes gyda chi sylwadau am y cynllun fel ag y mae hi erbyn hyn, a sut bydd e'n gweithio o ran eich fferm chi. Mae'n amlwg i ni fod y cynllun yn dipyn gwell na'r fersiwn cyntaf, ond mae'n siomedig taw dim ond trafod cyllid am flwyddyn ar y tro mae'r cynllun o hyd. Byddai llywodraeth Plaid Cymru yn cynnal y lefel hon o gyllid mewn termau real fel isafswm, ac yn hollbwysig, fel rhan o gylch cyllido aml-flynyddol. Dyna'r unig ffordd i roi'r sicrwydd hir dymor sydd ei angen ar ffermwyr. Mae'n glir i ni fod cwestiynau yn parhau ynghylch cydbwysedd buddsoddiad ar draws haenau'r cynllun, strwythur y cyfnod pontio, a'r diffyg eglurder ynghylch y taliad gwerth cymdeithasol hir-addawol. Felly cysylltwch â mi i rannu eich barn.

Cadwch yn ddiogel.

## Cyngor Cymuned **Tirymynach**

Cyfarfod 3 Medi '25.
Cafwyd crynhoad o'r hyn drafodwyd yn y cyfarfod blynyddol ddechrau'r haf. Y cynghorydd A. Keyworth fydd y cadeirydd eleni, ac Anwen Pierce yn is-gadeirydd.

Rhai o'r pynciau drafodwyd:

Parc Bryncastell: Yn dilyn archwiliad o ran iechyd a diogelwch, bydd gwaith ar y ffensys yn cael ei wneud yn yr hydref, ond mae sawl peth angen sylw e.e. trin y rhwd ac ailbaentio'r offer chwarae, cael bin &. Bydd y cyngor yn parhau i drafod y gwaith yn eu cyfarfodydd nesaf. Bu'r cais am grant o'r Cyngor Sir i ddatblygu'r parc yn aflwyddiannus; ry'n ni am edrych ar bosibiliadau eraill.

Bydd y cyfyngiad cyflymder yn newid i 30mya, heblaw am y ffordd gerllaw'r ysgol; ry'n ni'n aros am gadarnhad pryd y bydd hyn yn weithredol.

Mae baw cŵn yn dal yn broblem; mae prinder biniau wedi gwneud y broblem yn waeth.

Mae peiriannau di-ffib y pentref yn gweithio erbyn hyn.

Mae hyfforddiant y cynghorwyr yn parhau.

Mae sefyllfa ariannol heriol o'n blaenau a bydd angen bod yn ofalus o ran gwariant.

** Croesewir ceisiadau am grantiau o'r cyngor ar gyfer 2026/27 – anfonwch gais a mantolen o 1 Tachwedd ymlaen. **Dyddiad cau pob cais fydd 18 Ionawr 2026**.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 22 Hydref, 6.30. Croeso i bobl y ward ymuno – cysylltwch â tirmynach@gmail.com

YTincer@googlemail.com

Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV
- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar
GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

DIGIDA
Cyrsiau arlein i fusnesau, mudiadau ac unigolion.
Cyrsiau arlein byr, adnoddau, cymuned a digwyddiadau byw.
Rhowch hwb i'ch marchnata digidol.
Gwefannau: WordPress, Optimeiddio Peiriannau Gwe, Google Analytics
Cyfryngau Cymdeithasol: Facebook, Instagram, TikTok
Marchnata: Strategaeth Marchnata Digidol, Blogio a mwy.
Gyda mwy o gyrsiau yn cael ei ychwanegu yn rheolaidd.
digida.cymru @digidacymru

R.J Edwards a'i Fab
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

GWASANAETH GARDDIO MYNACH
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Bow Street

**Oedfaon y Garn**

*Medi*

21 Judith Morris
28 Oedfa Ddiolchgarwch dan ofal y Chwiorydd

*Hydref*

5 Noddfa
12 Bronwen Morgan
19 Wyn Morris
26 Yn Noddfa

**Suliau Noddfa**

*Medi*

28 Sul y Cyfundeb yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog.

*Hydref*

5 Richard Lewis
12 Richard Lewis
19 Cyfeillach
26 Richard Lewis

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Llŷr Eirug, ar raddio gyda Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Pererindod**

Dydd Sul y 13eg Gorffennaf aeth aelodau Capel Noddfa a ffrindiau ar bererindod i Eglwys Cadfan Sant yn Nhywyn. Arweinwyd y bererindod gan Richard Lewis a chafwyd cyflwyniad diddorol iawn ganddo am fywyd a gwaith y Sant ac am hanes difyr yr eglwys hyd heddiw. Soniodd Richard am y ddwy garreg hynafol sy'n un o drysorau'r eglwys, Carreg Cadfan a'r sun dial ac am y ffenestri lliw arbennig a gynlluniwyd gan yr arlunydd gwydr Geoffrey Webb ac eraill. Ar ddiwedd ei sgwrs soniodd am Lwybr Cadfan sy'n 128 milltir o hyd o Dywyn i Ynys Enlli ble sefydlodd Cadfan abaty a dod yn Abad cyntaf yr ynys. Yna, cawsom gyfle i grwydro o gwmpas yr eglwys i werthfawrogi ei phensaerniaeth cyn teithio i westy Ty'n Cornel yn Tal-y-Llyn i fwynhau paned, cacen a sgwrs. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr ac yn ddiolchgar iawn i Richard am drefnu pererindod mor ddiddorol.



## Y Garn ym mis Awst – Cofio Elwyn Pryse



Ni fu addoliad boreol yn y Garn ar foreau Sul mis Awst, felly gwag a thawel fu'r capel drwy'r mis, gydag un eithriad cofiadwy a gweddus.

Nos Sadwrn, yr 2il o Awst, daeth y newyddion am farwolaeth ein diweddar weinidog, y Parchedig Elwyn Pryse, yn 94 oed, ac yntau wedi bod yn araf ddihoeni ers tro yng Nghartref Carlton House, Llan-non. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol iddo yng Nghapel y Garn brynhawn Sadwrn, Awst 16, pan ddaeth cynulleidfa anrhydeddus ynghyd i dalu teyrnged iddo ac i fynegi eu cydymdeimlad â'i fab a'i ferch-yng-nghyfraith, Maldwyn ac Eleri, ei ŵyr Eilir, a'i wyres Meleri, a'i orwyres Erin Haf, cyn i'r teulu fynd yn eu blaenau i wasanaeth preifat yn Amlosgfa Aberystwyth. Darparwyd lluniaeth ysgafn yn Neuadd Rhydypennau i gloi'r prynhawn o goffadwriaeth.

Roedd y gwasanaeth yn y capel yng ngofal y Parchedig Ddr Watcyn James. Roedd y ddau emyn a ganwyd, sef "Dros Gymru'n gwlad, O Dad dyrchafwn gri" gan Lewis Valentine, ac "Iesu, difyrrwch f'enaid drud" gan William Williams, yn cyfuno ac yn adlewyrchu'n berffaith ddwy brif ffrwd ymroddiad bywyd Elwyn Pryse, sef gwladgarwch a chrefydd Iesu Grist, fel y nododd y Parchedig J. E. Wynne Davies yn ei deyrnged loyw, gynhwysfawr.

Ganwyd Elwyn Pryse ar Dachwedd 2il 1930, yn ardal Ysbyty Ystwyth, ac roedd cariad at y fro honno yn rhan annatod o'i wladgarwch digyfaddawd. Bu raid i'w dad symud ei deulu o'r ardal pan gaewyd y gwaith mwyn. Cafodd waith yng nglofa'r Maerdy ym mhen draw dyffryn y Rhondda Fach i ddechrau, a symud wedyn i fannau eraill yn y maes glo cyn gallu dychwelyd i Gwmystwyth. Collodd Elwyn ei dad a'i fam pan oedd tua'r pymtheg oed a chael cartref wedyn gan ei chwaer, Bertha, ym Mhwllpeiran.

Yn Ysgol Gynradd Ysbyty Ystwyth ac Ysgol Uwchradd Tregaron y cafodd ei addysg, ac aeth ymlaen i Goleg Trefeca ac wedyn i Goleg Diwinyddol Aberystwyth. Fe'i hordeiniwyd i'r weinidogaeth mewn gofalaeth yn Rhosllannerchrugog, Johnstown a Rhiwabon, symudodd wedyn i Lanrhaeadr-ym-Mochnant, yna i Lanymddyfri. Oddi yno daeth i ofalaeth y Borth ac wedyn, pan unwyd y Garn a'r Borth, daeth yn Weinidog ar y Garn a Madog hefyd, a chododd ef a'i ddiweddar briod, Tegwen, gartref yn Isgarn, Maes Ceiro, lle bu'n byw nes i'w wendid ei drechu.

Ymddeolodd o'r weinidogaeth lawn amser yn 1992 ond daliodd i bregethu nes 2020. Yng nghyfarfod Sasiwn y De ym mis Mai 2024 cafodd ei longyfarch ar ddathlu 70 mlynedd ers ei ordeinio'n weinidog. Mae'r diolch sy'n ddyledus iddo hefyd yn cwmpasu ei waith ar bwyllgorau'r enwad, yn enwedig y pwyllgorau ariannol oedd yn diogelu buddiannau'r eglwysi – bu ei brofiad cynnar ym myd busnes yn gaffaeliad iddo yn hynny o beth. Cofir hefyd am ei ymdrechion diwylliannol egnïol ef a Tegwen yn y cymdogaethau o gwmpas a thu hwnt i'r eglwysi, heb sôn am ei gefnogaeth ddiflino i ymgyrchoedd Plaid Cymru.

Yn sicr, tair carreg syflaen ei fywyd oedd Gwladgarwch, Cymwynasgarwch, a Chariad at Grefydd Iesu Grist. Coffa da amdano.

Gwelir teyrnged i Elwyn Pryse yn Cennad 235. (Awst 27 2025)

**Cae Pïod**

Dymuna CP Bow Street FC atgoffa pawb yn garedig nad oes caniatâd i gŵn o fewn caeau chwarae y clwb pêl-droed yng Nghae Piod. Mae camerâu cylch cyfyng newydd eu gosod ac maent yn gweithredu ledled y safle i sicrhau diogelwch pob ymwelydd. Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad wrth barchu'r polisi hwn.

**Derbyn i'r orsedd**

Llongyfarchiadau i Gareth William Jones, Hafle, dderbyniwyd i'r Orsedd yn Wrecsam am oes o wasanaeth i fyd addysg i'w adnabod yng ngorsedd fel Gareth William. Ysgrifennodd ddeg o nofelau i blant a bu'n arwain cwmni drama yn Rhydypennau am flynyddoedd.



## Capel Noddfa

**Eurig yn y Gyfeillach**

‘Anwadal wyf, diffygiol,
Ond cariad sy’n wastadol,
Yn nhŷ fy Nhad, nid af dros go›,
Caf ynddo groeso grasol.’

Trefnodd Anwen i’r bardd Eurig Salisbury ddod i siarad â Chyfeillach Capel Noddfa yn mis Mehefin a chafwyd atgofion difyr iawn ganddo o’i gyfnod fel Bardd Tre Aberystwyth yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Dechreuwyd y cyfarfod drwy ganu emyn Dan Lynn James: ‘Ti yw’r un sy’n adnewyddu.’

Eglurodd Eurig rôl y bardd mewn cymdeithas a swyddogaeth Bardd y Dref ac yna aeth ymlaen i gyflwyno rhai o’r cerddi a ysgrifennodd yn ystod ei dymor, cerddi sydd erbyn hyn wedi eu cyhoeddi mewn cyfrol arbennig. Mae’r gyfrol, sy’n cynnwys dros ddeugain o gerddi, ar werth yn siop Inc a siopau eraill a bydd yr elw’n mynd at Hafan y Waun, RNLI a HAHAV. Mae’ ynddi gerddi amrywiol sy’n cofnodi achlysuron arbennig, yn cyfarch pobl arbennig ac yn gerddi dathlu.

Un o’r cerddi yn y gyfrol yw *Capel Croeso* sef cerdd i Gapel y Morfa a dyma bennill ohoni:

Mae allwedd gan Dai Alun
I ddrws y ffrynt, ond wedyn,
Drws calon capel nid yw’n cloi,
Mae’n troi bob tro i’n derbyn.

Cerdd arall yw *Ceraint o dan bren ceirios* a ysgrifennodd Eurig i gofnodi ymweliad y Maer Maldwyn Pryse a disgyblion o ysgolion Penweddig a Phen-glais â Siapan ar achlysur dathlu deugain mlynedd o gyfeillgarwch a gychwynwyd gan Frank Evans a’r ffaith i Frank blannu coeden geirios yn Yosano yn 1984 mewn ysbryd cymodlon.

Ffrwythlonni’r anialdiroedd,
Dyfrio had yfory oedd
Cymodi i Frank, medi ffrwyth
Cydernes nes dôi Ystwyth
A Nodagawa’n gywaith.
Ymlynu a wnawn. Mlaen â’i waith.

Comisiwn gan y Lyfrgell Genedlaethol yw’r gyfres o englynion dan y teitl *Byd Bach Aber,* sy’n anrhydeddu’r ffotograffydd Bruce Cardwell ac arddangosfa o’i waith. Cerdd i gyfarch gyfeilldref Aberystwyth Saint-Brieuc yw *Croesawu trigolion Saint-Brieuc* a chanodd Eurig y gerdd i ni ar hen alaw sy’n deillio o ddyffryn Ceiriog, bro mebyd ei fam.

Daeth y cyfarfod i ben drwy ganu *Cerddwn ymlaen i’r yfory,* emyn poblogaidd Peter Thomas




## Te Prynhawn – Pwyllgor yr Henoed

Cynhaliwyd te prynhawn llwyddiannus yn Neuadd Rhydypennau ar ddydd Sadwrn, 19 Gorffennaf, er budd Pwyllgor yr Henoed. Daeth nifer dda o gefnogwyr ynghyd i fwynhau te blasus a chyfle i gymdeithasu. Roedd yr awyrgylch yn gynnes ac yn gyfeillgar, a diolchwyd yn fawr i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd yr achlysur.



**Cyfarfod yn Brisbane**

Dyma Alun Phillips, Maesceiro, yng nghwmni’r ddau ŵyr, Aled a Bryn, wedi iddo gwrdd â nhw yn Brisbane adeg gemau prawf y Llewod yn Awstralia yn ystod yr haf. Am daith i’w chofio!



**Cerddwyr Bow Street**

Ddechrau’r haf, bu’r criw ar sawl taith ddiddorol, gan gynnwys un i Fronant, sef bro mebyd Paul Davies. Aeth Paul â’r criw i ardal hyfryd oedd yn cynnwys becws poblogaidd ei rieni, a rhannodd ei hanesion am ei brofiadau pan fu’n gweithio yn stablau Navy Hall pan oedd yn grwt.

Hen orsaf drên Strata Florida ger Ystrad Meurig oedd man cychwyn taith Vaughan Griffiths ar hyd yr hen lein i Dan-y-graig, ac roedd yn syndod gweld rhaeadr Caradog a thwnnel trên yng nghanol gerddi preifat destlus yr ardal.

Bu taith i Atomfa Trawsfynydd - lle'r arferai rhieni Gordon Jones lanhau'r ffenestri. Mae'r Atomfa yng nghysgod caer Tomen y Mur. Ond cyn adeiladu’r mwnt a’r mur yn yr oesoedd canol, bu’n fan cyfleus ger ffordd Sarn Helen i filwyr Rhufain, ac mae amffitheatr a nifer o olion hynafol i’w gweld yno o hyd. Does dim syndod fod sôn i ran o stori Blodeuwedd a Lleu Llaw Gyffes o’r Mabinogi ddigwydd mewn man mor hudolus.

Mae’r criw yn edrych ymlaen yn fawr at y gyfres nesaf o deithiau, a chwmni’r cerddwyr eraill.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gyda theulu y diweddar Llew Mason, Tregerddan fu farw ar 26 Gorffennaf; ei blant Colin, Martin a Janet a’u teuluoedd; ei chwaer Shirley a’i bartner Kathleen

Cydymdeimlwn â Mair Jenkins, Gareth, Dylan ac Aled, a’u teuluoedd, Garreg Wen, ar farwolaeth ei gŵr Alun – gynt o Capel Bangor ar 26 Awst.

**Dathlu**

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuiad da i Bryn Roberts, Maesmeillion, ar ddathlu ei ben blwydd yn 80 yn ddiweddar.

# Y Borth

**Pen blwydd arbennig**

Pen blwydd hapus a dymuniadau gorau i Beti Lewis, Aberwennol, a fu'n dathlu ei phen blwydd yn 90 oed ddechrau mis Awst.

**O'r ysbyty**

Bu Mrs. Eirwen Owen, Y Railway, yn ysbyty Bron-glais ddechrau mis Awst, ond da yw medru cofnodi ei bod adre ac yn gwella erbyn hyn.

**Cydymdeimlad**

Trist fu deall fod Mrs Doreen Thomas, gynt o'r Ffiol a'r Fferyllfa cyn hynny, wedi ein gadael yn ystod yr haf. Cydymdeimlwn â'r plant Catrin, Tudor a Rhian a'u teuluoedd ar eu profedigaeth.

**Marchnad Ffermwyr Y Borth**

Cafodd Marchnad Ffermwyr y Borth ymweliad arbennig yn ddiweddar, wrth i'r awdures a'r gogyddes Nerys Howell a'i gŵr alw heibio tra'n aros yn y pentre am rai dyddie. Cyflwynodd Kate Doubleday, Rheolwr y Farchnad, fag siopa arbennig y farchnad iddynt (bag a gynlluniwyd gan Stuart Evans ac a grewyd gan Becky Knight).

Treuliodd Nerys y bore yn prynu nwyddau o bron bob un stondin ac fe ddefnyddiodd y cig a brynodd gan Carn Edwards ar raglen Prynhawn Da ar S4C y prynhnawn canlynol (22 Awst), lle soniodd am ei hymweliad a chanu clodydd y Farchnad a'r holl gynhyrchwyr!

Canmolodd y Farchnad ar ei thudalen Instagram hefyd, gan roi sylw arbennig i'r bwrdd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer pobl sydd am ymarfer eu Cymraeg. Yn ogystal â phedwar bwrdd y caffi, lle mae pobl yn mwynhau paneidiau ac amrywiaeth o gacennau a danteithion sawrus, mae yna fwrdd sy'n cynnig cyfle i bobl sgwrsio yn Gymraeg. Mae wedi bod yn syndod i sylweddoli faint o bobl y Borth sydd yn medru'r Gymraeg ond heb gael cyfle i ymarfer, ac mae yna griw brwdfrydig yn ymgynnull yn wythnosol i sgwrsio â phobl sydd wedi bod yn dysgu'r iaith, a'r rheini yn 'ddysgwyr' o bob lefel.

Dywedodd Nerys: "Profiad unigryw oedd mynd i Farchnad Ffermwyr y Borth a phrynu cynnyrch o'r safon uchaf a hefyd cael y cyfle'r i siarad gyda'r cynhyrchwyr yn uniongyrchol a chlywed eu straeon ynglŷn â sut oedden nhw'n creu y cynnyrch ac yn y blaen. A hefyd beth drawodd fi oedd yr awyrgylch a'r naws a synnwyr o gymuned cryf oedd i'w deimlo. O'n in meddwl bod y ford ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn rhywbeth unigryw nad o'n i erioed di gweld o'r bla'n! Ma hon yn farchnad ffermwyr hollol unigryw ac felly llongyfarchiadau i'r trefnwyr am fynd ati i greu'r fath farchnad gymunedol hyfryd."

Diolch am ddod, Nerys!





## Pennod Newydd i Ganolfan Ymwelwyr Ynys-las

Mae Hwb Cymunedol Y Borth wedi camu i'r adwy yn dilyn penderfyniad dadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru i gau Canolfan Ymwelwyr Dyfi Ynys-las ym mis Mawrth. Ailagorwyd y ganolfan ym mis Awst ar ôl i reolwr yr Hwb, Helen Williams, gyflwyno cais i Gyfoeth Naturiol Cymru. Ers hynny, mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu gan gynnwys sesiynau celf, teithiau cerdded trwy'r twyni a helfa eirth i deuluoedd. Bu'r caffi ar agor unwaith eto hefyd gyda gwirfoddolwyr yr Hwb yno'n gwerthu diodydd, cacennau ac hufen iâ yn ddyddiol.

Hwb Natur Ynys-las yw enw newydd y ganolfan ac mae ymgynghoriad cymunedol yn cael ei gynnal er mwyn canfod mwy am ddymuniadau a dyheadau pobl leol ac ymwelwyr ar gyfer y dyfodol. Ochr yn ochr â'r fenter gyffrous newydd yma yn Ynys-las, mae gweithgareddau arferol Hwb Cymunedol Y Borth yn parhau yn eu canolfan arferol ar Ffordd Clarach.

Dywedodd Helen Williams: "Mae Hwb Cymunedol Y Borth yn falch iawn i fod wedi cymryd drosodd yr hen ganolfan ymwelwyr yn Ynys-las. Ein bwriad dros amser yw datblygu'r adnodd yma ymhellach, gan ddathlu harddwch ac arwyddocad amgylcheddol Ynys-las sydd mor bwysig i ni gyd."

Mae manylion am oriau agor a gweithgareddau'r Hwb Natur yn ystod yr Hydref i'w gweld ar dudalen Facebook Hwb Cymunedol Y Borth.





**Cofio Diwedd y Rhyfel**
Wythdeg mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd, ymgasglodd cyfeillion a chefnogwyr cangen y Borth o'r Lleng Brydeinig Frenhinol wrth y gofeb ar ben clogwyn Y Borth. Arweiniwyd y seremoni flynyddol gan y Parchedig Nick Bee. Hoffai Llywydd y Gangen Mark Williams a'r Cadeirydd Ray Quant MBE estyn diolch i aelodau Seindorf Arian Aberystwyth a chadetiaid o Ardwyn, Sgwadron 561 Cadetiaid Awyr Aberystwyth a'r Cylch, am eu cefnogaeth a'u presenoldeb.

**Noson Straeon y Môr**
Caiff noson o adrodd straeon ac arddangosfa gymunedol ei chynnal yng nghanolfan Seren y Môr nos Wener 19 Medi. Mae'r digwyddiad yn rhan o brosiect ymchwil dan arweiniad Prifysgol Reading, yn edrych ar fywyd ger y lli a'r stormydd a'i luniodd. Dros y misoedd diwethaf, mae Dr Alex Arnall a Dr Kim Williams wedi bod yn casglu hanesion, atgofion, ffotograffau, gwrthrychau a dogfennau yn olrhain perthynas hir Y Borth a'r môr. Bydd yr arddangosfa ar agor o 18:00 ar nos Wener 19 Medi gyda phobl leol ymhlith y sawl bydd yn adrodd straeon am y pentref rhwng 19:00 a 21:00. Mae mynediad am ddim. Ariennir y prosiect gan y Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau ac fe'i weinyddir gan Brifysgol Reading.

**GŵylBorthFfest**
Mae rhai misoedd wedi mynd heibio ers GŵylBorthFfest ddiwedd Mai ond dyma gyfle i rannu rhai o'r uchelbwyntiau a'r canlyniadau. Unwaith eto eleni cafwyd tipyn o hwyl, gyda'r gymuned yn dod at ei gilydd i fwynhau cyfres o ddigwyddiadau difyr. O'r llu arddangosfeydd celf, cystadlaethau amrywiol, y Bwganod Brain a'r Twmpath i'r amrywiol wersi a'r gwisgo lan, bu'n benwythnos a hanner!

Enillwyr y gystadleuaeth celf er cof am Muriel Delahaye:
1af – Jacq Brill
2il – Linda Henry
3ydd – Caroline Maddson


Enillwyr y gystadleuaeth ar gyfer y wisg ddestlus drwsiadus er cof am Billy Doyle: Karen a Steven Simmonds

Enillydd y gystadleuaeth Ffilm Ffôn i ieuenctid er cof am John Hefin: Isa Bosh. Diolch i bawb am ymuno a chyfrannu a diolch o galon i'n noddwyr.












Diolch yn fawr i Ag Cain am ailosod yr arwydd yr orsaf ar ben gogleddol y platfform. Fe wnaeth waith anhygoel!

# Colofn Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

**Catrin Pugh Jones**

Cafwyd noson wobrwyo ym mis Awst i ddathlu llwyddiannau adran y menywod wedi cystadlu brwd dros yr haf. Llongyfarchiadau i bawb!

**Tlws Evelyn Jenkins**: Y capten Helen Lewis o Ddinas Mawddwy oedd enillydd Tlws Evelyn Jenkins gan sgori 40 o bwyntiau. Gill Jones oedd yn ail a Jean Harrison yn drydydd.



**Cwpan Clarke**: Daeth Jean Harrison i'r brig gyda sgôr net o 66 yng Nghwpan Clarke, gyda Clare Jones yn ail ar sgor net o 69 a Barbara Flanagan yn drydydd ar sgor net o 71.



**Tlws Teulu Roberts**: Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc, chwaraeodd 24 o aelodau yng nghystadleuaeth boblogaidd Tlws Teulu Roberts. Roedd cyflwr y cwrs yn wych a'r bel



yn rhedeg yn dda, gan arwain at sawl sgôr arbennig. Roedd yn hyfryd cael cwmni aelodau o deulu Roberts yn y clwb i gyflwyno'r tlws, gyda Helen Young yn gwneud yr anrhydedd eleni. Catrin Pugh Jones oedd enillydd y tlws ar 44 o bwyntiau; Gill Jones yn ail ar 41 pwynt; Jane Raw Rees yn drydydd ar 41 pwynt a Helen Lewis yn bedwerydd ar 41 pwynt.

**Pencampwriaeth y Menywod**
Chwaraewyd y gystadleuaeth 36 twll dros ddau ddiwrnod gan 16 o gystadleuwyr yn ogystal â chystadlaethau 18 twll ar y dydd. Roedd yr amodau ar y dydd Sadwrn yn ddelfrydol gan arwain at nifer o ganlyniadau arbennig ond roedd hi'n stori wahanol ar y dydd Llun. Gyda storm Floris ar ei hanterth yn y bore, dyma'r gystadleuaeth yn symud i'r prynhawn ar ôl i'r glaw cilio a'r gwynt ostegu rhywfaint. Enillydd y Bencampwriaeth Gross a thlws grisial Sue Wilson oedd Jane Raw Rees gyda sgôr gros o 91 a 93 = 184. Enillydd y Bencampwriaeth Net a thlws Shân Powell oedd Anne Morris gyda sgôr net o 70 & 75 = 145. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

**Pencampwriaeth y Dynion**
Chwaraewyd 36 twll gan 28 o gystadleuwyr ar ddydd Sadwrn 5 Awst. Roedd yr amodau yn y bore yn wlyb ac yn wyntog ond erbyn y prynhawn roedd y tywydd yn ddelfrydol. Enillydd Pencampwriaeth 2025 a Chwpan Willis oedd Alan Shaw, gyda sgôr arbennig o 77 a 73 = 150 gros. Enillydd y gystadleuaeth net a Chwpan Torri oedd aelod newydd i'r clwb sef David Pocock gyda sgôr arbennig arall o 69 a 70 = 139 net. Llongyfarchiadau i'r ddau.


**Diwrnod yr Adran Iau**
Eleni trefnwyd diwrnod arbennig ar ddydd Iau 14 Awst ar gyfer plant a phobl ifanc y Clwb gan Jane Miller ein his-gapten, wedi ei noddi gan Mel Evans o gwmni Mid Wales Travel. Cafwyd cystadlaethau pytio, chwarae dau twll, pump twll ac 11 twll, yn dibynnu ar brofiad y plant. Gyda 26 yn cystadlu ar y dydd, roedd yna fwrlwm yn y Clwb wrth i bawb ymgasglu yno ar gyfer y gwobrwyo. Llongyfarchiadau i'r enillwyr i gyd a diolch yn fawr i bawb ddaeth i gystadlu. Diolch i Jane am ei holl waith paratoi a threfnu ac i Mel am y nawdd hael.

**'Mini Masters'**
Ar ôl digwyddiad llwyddiannus ar 14 Awst, aeth nifer o'n hieuenctid ymlaen i chwarae yng nghystadleuaeth 'Mini Masters' Golff Cymru a gynhaliwyd y diwrnod canlynol ddydd Gwener 15 Awst. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran ac i'r enillwyr sydd yn ennill lle yn y rownd derfynol ar 5 Hydref yn Southern Down ym Mro Morgannwg.

Mercher 10 – 11 / Blwyddyn 5 a 6 – Lottie Munton
Bechgyn 8 – 9 / Blwyddyn 3 & 4 – Cledan Davies
Enillydd Her Volvic – Sandy Tinneman Coyne

**Dyddiad i'r Dyddiadur**
Mae Swper a Dawns traddodiadol y Capteiniaid yn dychwelyd i'r Clwb eleni gyda noson arbennig yn cael ei chynnal ar nos Sadwrn 18 Hydref. Wedi mwynhau pryd o fwyd dau-gwrs, bydd cyfle i ddawnsio i gerddoriaeth pedwarawd jazz talentog, yn cynnwys Rhys Taylor. Mae'r digwyddiad yn agored i bawb boed yn aelodau ai peidio ac mae tocynnau yn £30 y pen ac ar gael drwy gysylltu â'r clwb.








ADOLYGIAD

Helle Helle *Ceir ac Anifeiliaid*. Cyfieithwyd gan Richard Crowe. Melin Bapur, 2025. 84t. £8.99.




Cyfres o straeon byrion a gyfieithwyd o'r Ddaneg yw'r gyfrol hon ac ystyrir yr awdures Helle Hell yn un o lenorion pennaf Denmarc. Eglura'r cyfieithydd mai fel ymarfer ieithyddol yr aeth ati i'w cyfieithu ac er na allaf, gwaetha'r modd, gymharu'r gwaith â'r Ddaneg wreiddiol credaf fod y cyfieithiad wedi dal naws arbennig arddull unigryw Helle Helle gan eich bod yn ymwybodol o fod yng nghwmni cymeriadau sy'n perthyn i ddiwylliant dieithr. Mae hynny'n tystio i allu ieithyddol Richard Crowe a rhaid diolch iddo ac i Wasg Melin Bapur am ein cyflwyno i awdures o ddiwylliant arall a'r diwylliant hwnnw am unwaith nid yn Eingl-Americanaidd! Gan nad yw gwaith Helle Helle wedi ei gyhoeddi yn Saesneg eto mae Gwasg Melin Bapur hefyd wedi bod yn arloesol a rhoi'r Gymraeg ar y blaen.

Mae un ar bymtheg o straeon yn y gyfrol ac maen nhw'n amrywio o ran hyd. Er enghraifft, ychydig dros gant o eiriau yn unig yw hyd *Fy ngwaith* tra bod bron i ddwy fil o eiriau yn y stori *Twll y plwg.* Mae cynnwys y straeon yn amrywio hefyd ac roedd darllen rhai fel teithio ar *'roller coaster'* emosiynol tra bod ambell i stori'n fy ngadael yn gegrwth ac yn holi 'beth ar y ddaear?'

Buaswn yn gwneud cam â›r awdures petawn yn datgelu cynnwys y straeon gan ei bod yn amlwg am synnu'r darllenydd o dro i dro â digwyddiadau annisgwyl. Awgrymaf hefyd na ddylech ddarllen y rhagymadrodd cyn i chi ddarllen y straeon. Mewn argraffiad diweddar o glasur F. Scott Fitzgerald *The Great Gatsby* mae awdur y rhagymadrodd yn cychwyn gyda'r frawddeg 'New readers should be aware that this introduction makes details of the plot explicit.' Dylai fod rhybudd tebyg ar gychwyn rhagymadrodd *Ceir ac Anifeiliaid* hefyd!

Y cyfan dwi am ddatgelu yw y byddwch yn cael eich synnu gan y troeon annisgwyl yn y stori *Rhagor o goffi?* a'r stori *Y newydd-ddyfodiaid.* Byddwch yn gwenu wrth ddarllen am brofiad cymeriad fel Rezitze yn y stori *Y gwestai diwahoddiad* a'c am y cymeriad druan a brynodd bwmpen ac yn cydymdeimlo â chymeriad fel y brawd yn y stori *Twll y plwg.* Tybiaf y byddwch yn pendroni ac yn ansicr sut i ymateb wrth ddarllen ambell i stori fel *Y Casgliad, Bu farw fy modryb a Gair mewn angladd* a bydd straeon fel *Fy ngwaith* a *Rwy'n gyrru ymlaen* yn gwneud i chi fyfyrio am fywyd. A thybed a fydd y stori *Ei system ei hun* yn eich drysu'n llwyr fel y gwnaeth i mi!

Ydi, mae'r gyfrol hon yn amrywiol iawn ac yn wahanol iawn i'r *scandi noir* y daethom i ddisgwyl oddi wrth awduron Sgandinafia yn ystod y degawdau diweddar. Casgliad gwahanol, rhyfedd ar un olwg, ond difyr.

**Gareth William Jones**

Bydd cyfle i wrando ar Richard Crowe yn trafod y cyfieithu yng nghyfarfod mis Ionawr (21) o Gymdeithas y Penrhyn.

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

# Cofio Waldo – 'Creu Cenedl Heddwch'

Yr heddychwraig a chyn-aelod o Senedd Ewrop yn enw Plaid Cymru, Jill Evans o'r Rhondda fydd yn traddodi Darlith Waldo Williams eleni. Fe'i traddodir nos Wener, Medi 26ain yn Nhŷ Trafod, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth. Teitl y ddarlith fydd *Creu Cenedl Heddwch.*

Bu llawer o drafod ynghylch p'un ai bardd neu heddychwr oedd Waldo Williams yn bennaf. Tebyg bod y dafol yn weddol gytbwys o'r ddwy ochr. Ond tebyg y teflir goleuni pellach ar hynny gan y darlithydd gwadd.

Yna ar Fedi'r 30ain, sef diwrnod geni Waldo, dadorchuddir cofeb iddo yn yr Archifdy yn Hwlffordd. Ar safle'r Archifdy y safai Tŷ'r Ysgol, Ysgol Prendergast, lle'r oedd ei dad yn brifathro a lle treuliodd Waldo saith mlynedd cyntaf ei fywyd cyn i'r teulu symud i Fynachlog-ddu. Roedd yn blentyn uniaith Saesneg yn Hwlffordd ond cofleidiodd y Gymraeg ar ôl cyrraedd y Preselau trwy chwarae gyda'i gyfeillion newydd megis Edgar Tycwta a Dai Glynsaithmaen. Dadorchuddir y plac gan ei neiaint.

Yn y cyfamser mae Cymdeithas Waldo wedi lansio cyfres o bodlediadau o sgyrsiau gyda phobl oedd naill ai'n adnabod Waldo ei hun neu yn ei adnabod trwy ei waith neu gyfuniad o'r ddau. Mae'r gyntaf, sef sgwrs rhwng y prifardd a'r awdur, Alan Llwyd a Hefin Wyn i'w gweld naill ai ar wefan Cymdeithas Waldo neu ar youtube.


Mae Alun yn awdur cofiant swmpus yn ogystal â chyfrol ddwyieithog amdano fel heddychwr. Cyd-olygodd hefyd gyfrol sy'n cynnwys ei holl farddoniaeth ynghyd â nodiadau manwl am bob cerdd. Mae sgyrsiau tebyg gydag eraill yn yr arfaeth.

Mae Cymdeithas Waldo Williams ac Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth, yn cynnal:

**Darlith Waldo 2025:**

**CREU CENEDL HEDDWCH**

**Darlithydd: Jill Evans**



Medi 26 2025

4:00 - 6:00 yh
(gweinir te/coffi o 4:00)

Tŷ Trafod,
Campws Penglais,
Prifysgol Aberystwyth



Mae angen cofrestru am docyn (rhad ac am ddim) drwy:
https://darlithwaldo2025.eventbrite.co.uk
Am ymholiadau pellach, cysylltwch â:
acadops@aber.ac.uk
neu ffonio: 07850 713902 (rhwng Medi 8-25)

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY · CYMDEITHAS WALDO WILLIAMS

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor am ei gyfarfod blynyddol a'r cyfarfod misol arferol **nos Fawrth, 20 Mai** yn Festri Horeb gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair. Roedd pawb o'r aelodau'n bresennol, ar wahân i Llewelyn Evans a oedd wedi anfon ymddiheuriad, ynghyd â'r Clerc a'r cynghorydd sir.

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad byr am waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn a aethai heibio, a diolchodd i'w gyd-swyddogion, aelodau'r Cyngor, y Cynghorydd Sir a'r Clerc am bob hwylustod yn ystod y flwyddyn.

Etholwyd Richard Owen yn Gadeirydd ar gyfer 2025-26 a Meirion Roberts yn Is-gadeirydd. Etholwyd y canlynol i gynrychioli'r Cyngor ar wahanol gyrff: PATRASA – Gwenan Price; Corff Llywodraethol Ysgolion Penrhyn-coch a Chapel Bangor – Eirian Reynolds; Neuadd y Penrhyn – Gwenan Price a Delyth James; Cae Chwarae Pen-bont – Dai Mason; Y Wasg – Richard Owen.

Yna fe aed ymlaen gyda chyfarfod arferol mis Mai.

Materion yn codi: Gwanwyn Glân – atgoffodd Caryl Roberts, y cynghorydd sir, ni am y sesiwn tacluso'r pentref a oedd i'w chynnal y dydd Sadwrn canlynol; cyfarfod wrth fynedfa'r ysgol am 10.30. Tyllau – soniwyd unwaith yn rhagor am y tyllau yn y ffyrdd; roedd rhai yn y fynedfa i Ger-y-llan wedi'u llenwi ond eraill ar y stad heb eu gwneud. Roedd angen sylw ar y palmant ger Maes-y-felin ac roedd tyllau mawr ar y rhiw i fyny at Ben-cwm. Dywedodd Caryl fod y gwaith yn cael ei wneud ar rota, ac roedd yn hyderus y byddai pob man yn cael sylw, ond roedd yn cymryd amser. Cae Chwarae Pob Tywydd – sicrhawyd y Cyngor gan Mel Evans y byddai'r ysgol gynradd yn cael defnyddio'r cae yn ddi-dâl.

Map y pentref: fe dynnodd Eirian Reynolds sylw'r Cyngor at gyflwr y map. Roedd angen gwaith cynnal a chadw arno. Penderfynwyd trefnu cyfarfod gyda chwmni Seren Signs i weld beth oedd yn bosib.

## Noson Ffasiwn, Merched y Wawr Rhydypennau



**Ar nos Lun Medi yr 8fed cafwyd cyfarfod cynta'r tymor. Ar ôl mynd dros y rhaglen a chroesawu aelod newydd cawsom ein diddanu gan dair aelod yn modelu nwyddau yr oeddent wedi eu prynu o siopau elusen. Ein tasg ni oedd dyfalu y prisiau! Rial agoriad llygaid! I orffen y noson cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y Pwyllgor. Noson hyfryd.**

## Dôl-y-bont

**Newid aelwyd**

Dymunwn yn dda i Eleri a Gareth Hughes, y Warren yn eu cartref newydd yn Ger-y-llan, Penrhyn-coch ac estynnwn groeso cynnes i Saad, Ayfir ac Aleena atom i'r Warren. Dymuniadau gorau i'r ddau deulu yn eu cartrefi newydd. Saad yw Fferyllydd y Fferyllfeydd yn y Borth a Thal-y-bont.

**Priodas Ddiamwnt**

Yn ystod mis Gorffennaf bu Rachel a Gareth Rowlands, Brynllys, yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar gyrraedd y garreg filltir bwysig hon.

## Trefeurig

**CWMERFYN**

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Ceridwen a Sam, New Inn ar enedigaeth eu mab bach Meilir Hefin yn ystod yr haf. Mae Meilir hefyd yn ŵyr bach i Maddy a Hywel Lewis, Fferm Cwmerfyn.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir â Janice Crowley a'r teulu, Tŷ Capel Uchaf ar farwolaeth Ray ym mis Gorffennaf.

YTincer@
googlemail.com

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
*C. T. Evans*

*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS*

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*

CPD Penrhyn-coch
*O dan reolaeth newydd*

Croeso cynnes i bawb o bob oedran, yn deuluoedd ac yn unigolion.

Y CLWB
sef. 1965

Prydau cartref, Cinio dydd Sul. Archebwch fwrdd neu gallwch gael bwyd wedi ei gludo.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu
01970 828 992

# Ysgol **Penweddig**

**Gohebydd Penweddig** – Elin Williams, Blwyddyn 13 – Fy enw i yw Elin Williams ac mae paratoi adroddiad i'r Tincer yn un o fy nghyfrifoldebau yn ystod fy amser ym Mlwyddyn 13eg. Mae sawl un ohonom sy'n dod o ardaloedd y Ddolen, Papur Pawb a'r Angor yn cydweithio gyda Mr Williams y Pennaeth i rannu'r newyddion da am Benweddig gyda'r gymuned ehangach.

**Swyddogion Penweddig** – mae criw y swyddogion a'r prif swyddogion wedi cychwyn ar eu dyletswyddau i hyrwyddo gwerthoedd Penweddig sef Cymreictod, Parch ac Ymdrech gyda gweddill yr ysgol – Pob hwyl gyda'r gwaith pwysig!
**Prif Swyddogion** – Caoimhe Melangell a Lleucu Nest.
**Dirprwy Brif Swyddogion** – Dafydd Lewis, Ffion Wynne, Elan Mabbutt a Llio Tanat.
**Swyddogion** – diolch i bawb fu'n darparu cyflwyniadau ar gyfer bod yn swyddogion. Pob hwyl i Alexandria Williams, Angharad Lloyd, Elin Williams, Ffion Griffiths, Gwennan Hoskins, Isobel Coyne, John Lowe, Paul Lowe, Seren Skipp, Tirion Sedgwick a Tomos Afan gyda'r gwaith.

**Gwobr i athrawes**
Dyfarnwyd Gwobr yr Athro Mwyaf Ysbrydoledig i Mrs. Jane Richards, Pennaeth Bagloriaeth Cymru a Busnes yn Ysgol Penweddig, gan Brifysgol De Cymru.

Cynhaliwyd y seremoni ar gampws Pontypridd y brifysgol ddydd Gwener, 11eg Gorffennaf, lle ymunodd ei mam Helen, ei chwaer Emma, a thri disgybl – Megan, Efa, a Gwilym – â Mrs. Richards.



Enwebwyd Mrs. Richards gan gymuned ei hysgol ei hun, gyda chefnogaeth gan ddisgyblion y cyflawnodd eu cwmni Menter Ifanc 'Llanw' lwyddiant digynsail o dan ei harweiniad, gan ennill gwobrau Cwmni'r Flwyddyn Cymru a'r DU yn 2023-24. Aeth y cwmni ymlaen i gynrychioli'r DU yn Rowndiau Terfynol yr UE yn Sisili.

Mae ei dull addysgu yn cyfuno arbenigedd proffesiynol â gofal gwirioneddol am botensial unigol pob myfyriwr, gan ganolbwyntio ar gyflawniad academaidd a sgiliau bywyd hanfodol. Mae Mrs. Richards wedi dangos ymrwymiad eithriadol trwy ei gwaith allgyrsiol, gan aberthu amseroedd cinio, ar ôl ysgol, a phenwythnosau i helpu disgyblion i lwyddo.

Dywedodd y Pennaeth Mr. Clive Williams: "Rydym yn hynod falch o Mrs. Richards a'r gydnabyddiaeth haeddiannol hon. Mae ei hymroddiad i'n disgyblion yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, ac mae ei gwaith gyda Menter Ifanc wedi rhoi ein hysgol ar y map yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae Mrs. Richards yn ymgorffori gwerthoedd ein hysgol o Gymreictod, Parch, ac Ymdrech yn berffaith – gan ddathlu ein hiaith a'n diwylliant Cymraeg, dangos parch at botensial pob disgybl, a dangos ymdrech ddiflino ym mhopeth y mae'n ei wneud. Mae'r wobr hon yn dyst i'r addysgwraig eithriadol ydy hi, ac rydym yn ffodus i'w chael hi fel rhan o gymuned ein hysgol."

Mae cymuned gyfan yr ysgol yn llongyfarch Mrs. Richards ar ei chyflawniad rhagorol. Mae'r wobr yn cydnabod ei rhagoriaeth addysgu a'i dull cyfannol o addysg sy'n meithrin cyflawniad academaidd a thwf personol, gan ei gwneud yn dderbynnydd gwirioneddol haeddiannol o'r gydnabyddiaeth fawreddog hon.




**Llongyfarchiadau mawr i Leisi Myrddin ar gael ei dewis yn aelod o garfan pêl-droed merched dan 13 Ceredigion eleni a pob lwc i'r tîm cyfan!**



# Ysgol **Rhydypennau**

**Dal lan â'r digwyddiadau**

**Garddwest yr ysgol**

Diolch o galon i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu garddwest arbennig arall eleni. Codwyd £2063! Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb ddaeth i gefnogi. Hoffai'r ysgol ddiolch yn arbennig i'r cwmnïau ac i'r unigolion gyfrannodd roddion hael tuag at y noson. Mi fydd yr arian a godwyd yn hwb sylweddol i gefnogi a chynnal addysg pob plentyn yn yr ysgol.

**Mabolgampau**

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 24ain o Fehefin. Y tîm buddugol oedd y tîm glas Ystwyth, ail oedd y tîm melyn; Rheidol ac yn drydydd oedd y tîm coch, Leri. Diolch i bawb am ymdrechu mor wych yn ystod y dydd. Rhai diwrnodau'n ddiweddarach cynhaliwyd Mabolgampau Cylch Aberystwyth. Brwydrodd 24 o blant yr ysgol yn erbyn goreuon y Cylch. Rhwng pawb, cafwyd llwyddiannau nodedig iawn. Campus!

**Tripiau Ysgol**

Braf oedd medru trefnu tripiau ysgol i'r plant ar ddiwedd y tymor. Cafodd blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod gwych lawr ym Mharc Hamdden Heatherton, treuliodd blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod ym Mharc Antur Gelli Gyffwrdd, fe aeth blwyddyn 1 a 2 i Fferm Folly ac fe aeth plant Y Meithrin a'r Derbyn lawr i Lanrhystud i dreulio diwrnod ar fuarth Fferm Ffantasi. Diolch o galon i Bwyllgor Rhieni Athrawon yr ysgol am y cymorth ariannol i gefnogi'r tripiau gan sicrhau profiadau arbennig i holl blant yr ysgol.

**Ymweliadau diwedd tymor**

Profiad preswyl plant Blwyddyn 5 eleni oedd tridiau yn y Brifddinas. Mwynhaodd y plant ymweliadau difyr iawn i'r Senedd, i Bwll Mawr, i Amgueddfa Cymru ac hyd yn oed taith gyffrous mewn cwch cyflym ar draws y Bae. Ymweliad olaf plant blwyddyn 6 oedd taith gerdded o'r ysgol, ar hyd ffordd Glan-frêd, tuag at Ffatri Fêl Maesnewydd. Cafodd y plant amser gwych ar lawr y ffatri ac uchafbwynt yr ymweliad oedd blasu a chymharu mêl lleol gyda mêl o'r Affrig ac o Asia. I goroni'r ymweliad, cafodd pob plentyn jar o fêl blasus am ddim i fynd adref gyda nhw! Diolch yn fawr i Matt Suggett am y cymorth i drefnu'r ymweliad.





**Ffarwelio a diolch**

Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 llynedd wrth iddynt drosglwyddo i'w hysgolion uwchradd i gychwyn pennod newydd gyffrous ym Mlwyddyn 7. Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig iddynt yn neuadd yr ysgol; cafodd y criw gyfle i ffarwelio gyda'u ffrindiau i gyd a threulio amser gwerthfawr yng nghwmni ei gilydd am y tro olaf yn Ysgol Rhydypennau. Derbyniodd pob plentyn anrheg a thystysgrif arbennig fel atgof o'u hamser yn yr ysgol. Dymuniadau gorau iddynt oll.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://rhydypennau.ceredigion.sch.uk/ @YGRhydypennau-dilynwch ni ar instagram










# Ysgol **Craig yr Wylfa**










**Gwasanaeth Ffarwelio**
Fe wnaethom ffarwelio'n gynnes â Jacob, Leighton ac Odin yn ystod ein Gwasanaeth Ffarwelio diwedd tymor. Byddant yn symud ymlaen i Ysgol Uwchradd Penglais, ac rydym yn dymuno'n dda iddynt ar gyfer eu hantur newydd. Diolch enfawr i'r PTFaâ am brynu siwmperi ffarwel i'r disgyblion – yn atgof hyfryd o'u hamser yma.

**Tlws Peter Glover**
Llongyfarchiadau i Mira am ennill Tlws Peter Glover eleni gyda'i phrosiect rhagorol ar Ofod. Da iawn hefyd i Odin, a ddaeth yn ail, ac i Idris, a ddaeth yn drydydd. Roedd safon y gwaith yn uchel iawn eleni.

**Gŵyl Ffilm**
Da iawn i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 a gymerodd ran yng Ngŵyl Ffilm trwy'r lens y Sir eleni. Ysgrifennodd y plant eu sgriptiau eu hunain ac actio stori fer ddychmygus am daith ysgol i'r lleuad. Roedd y plant wedi cael gwahoddiad i Premier ffilm lle dangoswyd y ffilm ar y sgrîn fawr yn y Llyfrgell Genedlaethol! Gwaith gwych!

**Marchnad y Ffermwyr**
Mwynhaodd y plant fynd i Farchnad y Ffermwyr yn y Borth i werthu llyfrau ail-law. Roedd yr ymweliad yn llwyddiannus iawn ac yn gyfle gwych i'r disgyblion ymarfer eu sgiliau Cymraeg drwy siarad gyda chwsmeriaid ac aelodau o'r gymuned. Llwyddodd y plant i wneud elw o £45 yn ein sesiwn gyntaf!

**Parti Môr-ladron**
I gloi ein thema tymhorol ar Fôr-ladron, cafodd yr ysgol gyfan barti môr-ladron llawn hwyl a sbri! Mwynhaodd y plant ddarllen mapiau, cerdded y planc, a choginio danteithion môr-ladron blasus. Diwrnod llawn hwyl ac addysg!

**Ffair Haf**
Diolch o galon i bawb a ddaeth i'n ffair haf flynyddol. Roedd hi'n llwyddiant ysgubol, gyda phob stondin yn gwneud elw! Dangosodd y plant eu sgiliau entrepreneuraidd wrth redeg stondinau'n greadigol ac yn frwdfrydig. Nawr, bydd y plant yn penderfynu beth i'w wneud gyda'r arian – edrychwn ymlaen at glywed eu syniadau!

**Newidiadau Staff**
Rydym yn ffarwelio â Mr Hefin Jones, sydd wedi gweithio yn Ysgol Craig yr Wylfa am 14 mlynedd. Diolch am eich holl waith caled, a dymuniadau gorau ar gyfer y bennod nesaf.

Croeso cynnes i Mr Gregory Vearey Roberts fel ein Pennaeth newydd. Rydym yn gyffrous iawn i'w groesawu ac yn edrych ymlaen at ei adnabod dros y tymor nesaf. Croeso hefyd i Mr Rhun James, a fydd yn ymgymryd â rôl Miss Hughes tra bydd hi ar absenoldeb mamolaeth ar ddechrau'r tymor.

**Chwaraeon Ardal Aberystwyth**
Cafodd disgyblion yr ysgol ddiwrnod llwyddiannus yng nghystadleuaeth Chwaraeon Ardal Aberystwyth, a gynhaliwyd ar gaeau chwarae Penweddig. Mwynhaodd y plant gymryd rhan, ac roedd yn bleser eu cynrychioli. Llongyfarchiadau i Emmy ym Mlwyddyn 4 am ddod yn 2il yn y naid uchel, ac i Mira ym Mlwyddyn 5 am ddod yn 3ydd. Diolch enfawr i'r PTFa am ddarparu crysau chwaraeon newydd i'r ysgol – roedd y plant yn eu gwisgo'n falch

**Neges gan Mr Jones**
Ar ddiwedd fy nghyfnod fel pennaeth yn Ysgol Craig yr Wylfa, hoffwn ddiolch i holl wirfoddolwyr *Y Tincer* am bob cefnogaeth dros y blynyddoedd. Diolch arbennig i Ceris am ei amynedd di-ben-draw wrth ddisgwyl am fy adroddiadau. Mae'r ysgol yn elwa'n fawr o gael y sylw misol yma ac mae'n hyfryd cael dangos y gwaith sy'n digwwydd yn yr ysgol i'r gymuned ehangach.

Mae wedi bod yn fraint i gael bod yn gweithio yn Ysgol Craig yr Wylfa ers bron i 15 mlynedd ac mae gen i lawer iawn o atgofion melys am y gymdeithas agos sydd yma, y cydweithio rhwng y llywodraethwyr a'r rhieni ac yn enwedig am ddysgu'r plant annwyl sydd wedi bod yn ddisgyblion yma dros y blynyddoedd. Mae llawer wedi newid dros y blynyddoedd ond mae brwdfrydedd a chwilfrydedd y plant wedi aros yn debyg iawn.

Felly, wrth i mi ddiolch, rwyf hefyd yn dymuno'r gorau i Mr Greg Roberts, sydd eisoes wedi dechrau ar ei swydd fel Pennaeth, ac i'r staff i gyd hefyd. Gobeithio y bydd pawb yn yr ardal yn cefnogi Mr Roberts a'r ysgol yn y dyfodol. Mae hi'n sefydliad hynod werthfawr i'r gymuned ond mae angen ei gwarchod a'i pharchu wrth edrych ymlaen. Rwy'n siŵr y byddaf yn galw draw i'ch gweld cyn hir.







# Ysgol Gymunedol **Penrhyn-coch**




**Croeso Cynnes**

Croeso i Marged Davenport, athrawes newydd Blwyddyn 1. Gobeithio y bydd hi'n hapus iawn yn ymuno â'n tîm.

**Ffarwelio**

Pob hwyl i'r disgyblion sy'n symud ymlaen i'r ysgol uwchradd: Alisha, Asher, Elena, Ellis, Evie, Florence, Harry, Iona, Jacob, Kaeden, Kai, Leo, Mabli, Milly a Ned. Edrychwn ymlaen at glywed am eich anturiaethau.

Dymuniadau gorau hefyd i Miss Hanna, Maiia a'r teulu – diolch am eich cyfraniad dros y tair blynedd diwethaf.











## Ysgol **Pen-llwyn**

**Ffarwelio**
Pob hwyl i'r disgyblion sy'n symud ymlaen i'r ysgol uwchradd: Ava, Talys, Ryan, Jac ac Iwan. Edrychwn ymlaen at glywed am eich anturiaethau.

**Croeso Cynnes**
Croeso i Mr J Jones a Mrs K Newman – dymuniadau gorau yn eich rolau newydd.

**Sioe Capel Bangor**
Roedd yn braf cefnogi'r sioe leol. Bu gan yr ysgol stondin weithgareddau, ac enillodd nifer o blant wobrau yn y cystadlaethau celf a chrefft.

# Bywyd Ysgol – Ardal Penrhyn-coch a Phen-llwyn

**Trip Ysgol**
Wedi gwrando ar farn y plant, aeth Ysgol Gymunedol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn ar y cyd ar daith i Quackers. Roedd hi'n ddiwrnod llawn hwyl, cyfeillgarwch a chwerthin – profiad cofiadwy i bawb.

**Rali Ceredigion**
Croesawodd yr ysgol Osian Pryce ar ddiwedd yr haf. Roedd cyffro mawr wrth iddo ateb cwestiynau'r plant ac arwyddo taflenni – hyd yn oed banana! Ar Fedi 5ed, gwyliodd yr ysgol gyfan y gyrrwyr yn cystadlu ym Mhen-dam.

**Mabolgampau Ysgol**
Cynhaliwyd mabolgampau ar gae pêl-droed Penrhyn-coch, gyda disgyblion o Ben-llwyn yn ymuno i gystadlu. Roedd hi'n brynhawn braf gyda llawer o weithgareddau a rasys. Daeth pawb â'u gorau glas, ac ar ôl blynyddoedd o aros, Stewi a Rheidol ddaeth i'r brig – llongyfarchiadau!

**Proms Ceredigion**
Am noson arbennig! Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn perfformio fel rhan o Gôr Cynradd Ceredigion ac yn y gerddorfa. Roedd y perfformiadau'n wych ac yn llawn balchder.

**Honeypot**
Aeth grŵp o blant i Honeypot am bedair diwrnod. Ymhlith y gweithgareddau roedd taith i 'British Ironworks', dysgu achub bywyd yn y pwll nofio, a gwinio. Profiad cyfoethog a chofiadwy!

# Tasg y Tincer

Helô bawb! Gawsoch chi wyliau braf? Roedd y tywydd yn hyfryd, yn doedd? Digon o gyfle i fynd i lan y môr neu i wersylla mewn pabell, a mwynhau'r heulwen. Fuoch yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd, neu yn yr Eisteddfod yn Wrecsam? A beth am yr ŵyl feicio ddiwedd Mehefin, a'r rali geir sydd newydd fod yn ardal Y Tincer? Roedd y cyfan yn werth ei weld.


Diolch i chi am liwio'r llun y tro diwetha: Gwern Elis Roberts, Pen-bont Rhydybeddau; Anni Morgan Jones, Llandre; Ffion Pugh, Y Borth, ac Elsi Wyn Lewis, Capel Bangor.


Ffion

Dy enw di, Ffion, ddaeth allan o'r het haul – llongyfarchiadau!

Ydych chi'n hoff o fis Medi? Mae digwyddiadau yn ein pentrefi eto, ac ry'n ni'n cael gweld ein ffrindiau ar ôl y gwyliau – a gwneud ffrindiau newydd. Ydych chi wedi bod yn hel mwyar duon? Mae'r cloddiau'n llawn ohonyn nhw ym mis Medi ... ac mae cael crymbl neu darten yn llawn mwyar duon yn hyfryd.

Falle eich bod chi'n ddigon lwcus i gael coeden afalau yn yr ardd. Mae'r canghennau'n drwm gan ffrwyth, siŵr o fod. Beth am gasglu rhai cyn i'r gwynt eu cipio, a'u rhoi yn y crymbl gyda'r mwyar? Mmmm!



| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| Ysgol | |
| Rhif ffôn | Oed |

Y mis hwn, beth am liwio llun y goeden afalau? Ydych chi'n gallu cyfri'r ffrwyth? Lliwiwch y llun a nodi sawl afal welwch chi. Cofiwch fod gwobr hael i'r enw cyntaf o'r het! Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Hydref. Ta ta tan toc, a phob lwc yn ôl yn yr ysgol!

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 481 | Medi 2025